Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed








Diweddarwyd Tachwedd 2023

# Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pawb sydd â diddordeb mewn gwarchod plant a gofal dydd, yn enwedig sefydliadau yn y sector gwarchod plant a gofal dydd, awdurdodau lleol, gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd, a rhieni. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn cymryd lle'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016. Defnyddir y safonau hyn i benderfynu a yw sefydliadau gwarchod plant a gofal dydd yn darparu gofal digonol ar gyfer plant hyd at 12 oed. Mae'n rhaid eu darllen yng nghyd-destun Rhan 2 (Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016; a'r rheoliadau cysylltiedig. Y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). |
| **Camau i'w cymryd** | Mae'n rhaid i ddarparwyr gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig fodloni'r safonau hyn. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon unrhyw gwestiynau i'r cyfeiriad canlynol:<br>Is-Adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010<br>Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016<br>Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016<br>Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016<br>Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022<br>Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol (Cymru) 2010<br>(mae pob un ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru) |

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48841, ISBN digidol 978-1-83577-083-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cynnwys**


Newidiadau pwysig i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2
Cyflwyniad 4
Sut i ddefnyddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 4
Beth rydym yn ei olygu wrth ‘ofal plant a reoleiddir’? 6
Eithriadau: Pryd nad oes angen cofrestru? 9
Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel? 10
Safon 1:  Gwybodaeth [am y lleoliad] 15
Safon 2: Y Contract 17
Safon 3: Asesu 18
Safon 4:   Diwallu anghenion unigol 19
Safon 5: Cofnodion 21
Safon 6: Gweithio mewn partneriaeth â rhieni 23
Safon 7: Cyfleoedd i chwarae a dysgu 25
Safon 8: Maeth a lles 27
Safon 9: Ymddygiad 28
Safon 10: Gofal iechyd 30
Safon 11: Meddyginiaeth 34
Safon 13: Person addas 37
Safon 14:  Trefniadaeth 45
Safon 15:  Cymarebau staffio 47
Safon 16:  Cyfle cyfartal 51
Safon 17:  Gweithdrefnau ariannol 52
Safon 18: Ansawdd 53
Safon 20:  Diogelu 56
Safon 21:  Hysbysu am ddigwyddiadau pwysig 57
Safon 22:  Yr amgylchedd 59
Safon 23:  Cyfarpar 62
Safon 24:  Diogelwch 64
Safon 25: Gofal dros nos 67
Atodiad A – Canllawiau’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchodwyr Plant 69
Atodiad B – Canllawiau Cymorth Cyntaf Atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig 75
Atodiad C – Canllawiau Diogelu’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Rolau a Chyfrifoldebau 78
Atodiad D – Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a’r Rheoliadau cysylltiedig 82
Geirfa 84

# Newidiadau pwysig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

## Cefndir

Yn 2019, yn dilyn adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, cofnodwyd ei ganfyddiadau a'i argymhellion. Roedd llawer o'r argymhellion yn ymwneud â'r angen am ragor o wybodaeth, eglurder ynghylch y gofynion a chael gwared â rhwystrau o ran ymarfer. Mewn ymateb i'r adolygiad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022-23 yn holi barn am y newidiadau arfaethedig i'r Safonau. Ddechrau 2023, lluniwyd Crynodeb o'r Ymatebion, a oedd yn dangos bod yr ymatebwyr o blaid y newidiadau a gynigiwyd yn gyffredinol.

## Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud?

Lle roedd angen, mae'r safonau wedi'u diwygio i fod yn gliriach, a/neu wedi'u diweddaru i gyfeirio at ganllawiau cyfredol. Mae safonau newydd hefyd wedi'u datblygu neu'u cyfuno fel y bo'n briodol. Er hwylustod, lle gwnaed newidiadau sylweddol i rai safonau, rydym wedi tynnu sylw atynt isod.

Lle roedd angen rhagor o wybodaeth, rydym wedi cynnwys canllawiau ychwanegol fel atodiadau i ategu rhai o'r safonau fel y bo'n briodol. Mae geirfa wedi'i chynnwys i egluro rhai termau.

## Newidiadau allweddol

Gofynion hyfforddi Cymorth Cyntaf Pediatrig (Safon 10: Gofal iechyd) – rydym wedi cryfhau'r gofynion ar gyfer cymorth cyntaf mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig, ac wedi darparu gwybodaeth gliriach am gynnwys y cwrs mewn atodiad. Bydd y gofynion o ran hyfforddiant cymorth cyntaf yn wahanol, yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni'r gofynion **newydd** o ran cymwysterau.

Diogelu (Safon 20: Diogelu) – rydym wedi egluro yn safon 20 y gofynion ynghylch diogelu, ac wedi nodi yn yr atodiad perthnasol yr hyfforddiant priodol ar gyfer gwahanol rolau o fewn y sector. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 er mwyn i ddarparwyr allu paratoi i fodloni'r gofynion **newydd** o ran hyfforddiant.

Gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr (Safon 13: Person addas (GP)) – rydym wedi darparu canllawiau yn nodi cyfrifoldebau a rôl gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n gweithio gyda chynorthwy-ydd gwarchod plant a'r hyfforddiant perthnasol y mae'n rhaid i gynorthwy-ydd ymgymryd ag ef. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynorthwywyr fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Darperir cyfnod rhybudd o 18 mis tan ddiwedd Tachwedd 2024 ar gyfer cynorthwywyr newydd a phresennol er mwyn rhoi amser iddynt gyflawni'r gofyniad newydd hwn.

Cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd (Safon 13: Person addas (GD)) – rydym wedi diwygio'r safon hon i ganiatáu i 20% o staff lleoliadau gofal dydd

llawn a 10% o staff lleoliadau sesiynol neu fynediad agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael eu cynnwys yng nghymarebau cymwysterau staff.

Aelod staff ychwanegol (Safon 15: Cymarebau staffio) - rydym wedi cael gwared â'r safon benodol sy'n ymwneud â'r gofyniad am staff ychwanegol mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer mwy nag 20 o blant. Rydym wedi cryfhau safonau staffio eraill i atgyfnerthu'r trefniadau rheoli ac i'w gwneud yn glir y bydd angen adnoddau staff a rheoli ychwanegol i ymgymryd â rolau rheoli os bydd hyn yn effeithio ar y cymarebau gofynnol o ran plant ac oedolion.

**Beth mae angen i chi ei wneud nawr?**

- Rhaid i ddarparwyr ddisodli unrhyw gopïau electronig neu galed sydd ganddynt o rifyn 2016 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol â fersiwn ddiwygiedig Tachwedd 2023.

- Fel darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig, rhaid ichi ymchwilio i sut mae'r newidiadau yn effeithio ar eich busnes chi a chymryd y camau angenrheidiol i fodloni'r gofynion newydd.

**Ffynonellau cymorth a chanllawiau i ymateb i'r newidiadau**

CWLWM

Play Wales

Eich awdurdod lleol

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn datgan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant hyd at 12 oed. Mae'n ofynnol i'r gwarchodwyr plant a'r darparwyr gofal dydd hyn gofrestru yn unol â darpariaethau Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur"), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016, a'i reoliadau cysylltiedig. Mae'r Safonau hyn yn cymryd lle'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016.

Lluniwyd y safonau hyn yn unol ag adran 30(3) y Mesur a'u nod yw helpu darparwyr a lleoliadau i gyflawni'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Rhaid i bersonau cofrestredig roi sylw i'r safonau sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir yng Nghymru yn amlinellu swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cofrestru. Cyflawnir y swyddogaethau hyn ar ran Gweinidogion Cymru gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig, a gwasanaethau cymdeithasol drwy:

- Reoleiddio;
- Arolygu ac adolygu;
- Rhoi cyngor proffesiynol.

# Sut i ddefnyddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn yn berthnasol i bob person cofrestredig ac eithrio'r sawl a nodir yn benodol fel rhai wedi'u heithrio wrth safon neu grŵp o safonau penodol. Mae nifer fach o safonau yn berthnasol i fathau penodol o ddarpariaeth gofal dydd yn unig. Mae hyn hefyd wedi'i nodi'n glir.

Rhoddir y Safonau ar waith mewn gwahanol ffyrdd yn ôl natur y gwasanaeth neu'r lleoliad, ond rhaid i bob person cofrestredig roi sylw i'r Safonau a bodloni'r gofynion rheoliadol a'r amodau cofrestru fel y mae eu Datganiad o Ddiben yn ei nodi.

Drwy'r ddogfen hon, mae cyfeiriadau at 'Reoliadau' yn gyfeiriad at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016.

Cofiwch:

Ym mhob achos, y **person cofrestredig** (sef y gwarchodwr plant cofrestredig neu ddarparwr cofrestredig y gofal dydd) sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau, gan roi sylw i'r Safonau perthnasol. Mae hyn yn wir bob amser, er yn ymarferol efallai y caiff y cyfrifoldeb ei ddirprwyo o ddydd i ddydd i reolwr, y person cyfrifol neu aelod dynodedig o staff. Lle darperir gofal dydd gan sefydliad (corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig), rhaid i **unigolyn cyfrifol** sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gofal dydd a ddarperir o ddydd i ddydd gael ei benodi gan y sefydliad hwnnw.

Os yw'r sefydliad yn gorff corfforaethol, rhaid i'r person a benodir i fod yn gyfrifol fod yn gyfarwyddwr, yn rheolwr, yn ysgrifennydd neu'n swyddog arall o fewn y sefydliad. Os yw'r sefydliad yn gymdeithas anghorfforedig, rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn swyddog neu'n aelod o'i gorff llywodraethu.

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol fodloni'r gofynion rheoliadol o ran eu haddasrwydd ar gyfer y swyddi (fel y'u nodir yn rheoliad 6(3)(b)(iii) neu (iv) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016).

Yn gyffredinol, disgwylir i'r unigolyn sy'n gyfrifol ddangos bod y ddarpariaeth gofal dydd yn cydymffurfio â gofynion amrywiol y rheoliadau hyn, gan roi ystyriaeth i'r datganiadau perthnasol yn y Safonau.

- Rhaid penodi **person i fod yn gyfrifol** os mai sefydliad yw'r person cofrestredig, ac nad yr unigolyn cyfrifol sydd â gofal llawn bob dydd am y ddarpariaeth gofal plant, neu os yw'r person cofrestredig yn unigolyn nad yw â gofal llawn bob dydd. Rhoddir gwybodaeth lawnach ynghylch y cyfrifoldeb hwn yn Rhan 3, Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016.

- Mae unrhyw gyfeiriad at bersonau cofrestredig yn cynnwys **gwarchodwyr plant**.

- Mae unrhyw gyfeiriad at riant/rhieni yn cynnwys gofalw(y)r a'r sawl nad ydynt yn rhieni ond sydd â chyfrifoldeb rhieni.

- Mae cyfeiriadau at staff yn cynnwys cynorthwywyr gwarchodwyr plant a staff neu wirfoddolwyr di-dâl.

Safonau **Gofynnol** Cenedlaethol ar gyfer cofrestru yw'r rhain ac, er mwyn darparu gofal plant o ansawdd, y disgwyliad cyffredinol yw i bersonau cofrestredig weithio tuag at ragori ar y safonau sylfaenol hyn.

## Beth rydym yn ei olygu wrth 'ofal plant a reoleiddir'?

Mae 'gofal plant a reoleiddir' yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol fathau o ddarpariaeth sy'n destun set o safonau gofynnol cenedlaethol.

Bwriad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw caniatáu dull hyblyg er mwyn i ddarparwyr allu datblygu darpariaeth o safon, a honno wedi'i theilwra i anghenion plant, rhieni a chymunedau lleol. Y bwriad yw bod y safonau'n adlewyrchu anghenion plant o'u geni hyd at 12 oed, a'u bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd gymesur.

Yng Nghymru, caiff gwarchod plant, darpariaeth gofal dydd a chwarae i blant hyd at 12 oed oed ei reoleiddio gan AGC. Ariennir rhai lleoliadau gofal cofrestredig gan awdurdodau lleol i ddarparu addysg feithrin i blant 3-4 mlwydd oed yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru (a amlinellir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021). Arolygir y rhain gan Estyn i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni safonau addysgol.

Gellir rhannu gofal plant a reoleiddir yn ddau gategori:

### Gwarchod plant

Gofal plant a ddarperir gan un person neu fwy, o enedigaeth hyd at 12 oed, mewn eiddo domestig nad cartref y plentyn ei hun ydyw am fwy na 2 awr y diwrnod, a hynny am dâl.

Caiff gwarchodwyr plant gynnig: Gofal dydd llawn a gofal rhan amser gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol gan gynnwys oriau annodweddiadol e.e. nosweithiau, penwythnosau a dros nos, darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol, gofal cofleidiol[1], lleoedd addysg a ariennir[2], a lleoedd gofal plant am ddim[3].

Mae angen cofrestru person sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant gydag AGC os nad yw wedi'i eithrio'n benodol fel arall o dan ddarpariaethau'r rheoliadau (Rhan 2 o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016).

Ni ddylai ymgeisydd fod wedi'i ddatgymhwyso rhag cofrestru fel gwarchodwr plant a rhaid iddo fodloni a bod yn debygol o barhau i fodloni'r gofynion a ragnodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 a Rhannau 3, 4 a 5 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016, OS 2016/8741. Ni ddylai unrhyw un sy'n gweithio neu'n byw

---

[1] Darpariaeth gofal plant sy'n cefnogi rhieni pan fod plant yn derbyn y lleoedd addysg a gyllidir, ar gyfer ehangu hynny i ddiwrnod ysgol llawn
[2] Lleoedd addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed, am ran o'r diwrnod ysgol
[3] Gofal plant sydd ar gael drwy raglenni a ariennir, megis Dechrau'n Deg, a/neu raglenni neu fentrau eraill Llywodraeth Cymru.

yn y fangre sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r plant fod wedi'i ddatgymhwyso ychwaith.

Ar hyn o bryd nid yw’n ofynnol rheoleiddio gofal ar gyfer plant sy’n 12 oed neu'n hŷn. Fodd bynnag, gall gwarchodwr plant sydd wedi'i gofrestru ac sy'n rhoi gofal i blant o dan 12 oed ofalu am blant 12 oed a hŷn.

Rhaid i warchodwyr plant a ariennir i ddarparu addysg feithrin gydymffurfio â gofynion Cwricwlwm i Gymru, a amlinellir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

## Gofal dydd a darpariaeth chwarae mynediad agored

Mae person yn darparu gofal dydd i blant os yw’r plant, ar unrhyw adeg, yn derbyn gofal mewn mangre annomestig.

Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig darparu gofal dydd i blant fod wedi’i gofrestru gydag AGC heblaw ei fod wedi'i eithrio'n benodol o dan ddarpariaethau Rhan 3 o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y’i diwygiwyd).

Mae gofal dydd mewn mangre benodol yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau gwahanol ac mae AGC yn cofrestru darparwyr gofal dydd o dan y categorïau canlynol:

- **Gofal Dydd Llawn** – Gofal dydd llawn ar gyfer plant 0 hyd at 12 oed am gyfnod parhaus o 4 awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig.

  Gall gynnwys meithrinfeydd dydd, canolfannau i blant, a chanolfannau i deuluoedd sy’n cynnig gofal llawn amser neu ran amser, gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, gofal cofleidiol, darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol, lleoedd addysg a ariennir a lleoedd gofal plant am ddim.

  Gall hefyd gynnwys lleoliadau sy’n cynnig “Darpariaeth Gymysg Gofal Sesiynol Dydd Llawn” - amrywiaeth o wasanaethau gofal sesiynol yn ystod y dydd. Gall hyn gynnwys grwpiau chwarae Cymraeg a Saesneg, Cylchoedd Meithrin, gofal cofleidiol, lleoedd addysg a ariennir a lleoedd gofal plant am ddim.

- **Gofal Dydd Sesiynol** – Gofal i blant o ddwy oed ymlaen mewn mangreoedd annomestig am gyfnof parhaus sy’n llai na 4 awr mewn un dydd. Defnyddir y gwasanaeth gan blant 3 i 5 oed yn bennaf, yn hytrach na babanod neu blant bach iawn, er bod rhai’n croesawu plant 2 oed. Lle cynigir dwy sesiwn mewn un dydd, ni ddylai plant fynd i fwy na 5 sesiwn yr wythnos. Rhaid bod egwyl rhwng y sesiynau, hynny yw, cyfnod pan nad oes unrhyw blant yng ngofal y darparwr.

  Gall gynnwys: Grwpiau chwarae, Cylchoedd Meithrin, gofal cofleidiol, lleoedd addysg a ariennir, a lleoedd gofal plant am ddim.

- **Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol** – Mae cyfanswm y gofal ar gyfer plant hyd at 12 oed yn fwy na dwy awr mewn unrhyw ddiwrnod ac am fwy na phum niwrnod y flwyddyn. Mae'n cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn, a gall gynnwys cyn ysgol, ar ôl ysgol, ac yn ystod gwyliau ysgol. **Nid yw'n** cynnwys gofal cofleidiol na chynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd Llywodraeth Cymru.

- **Crèche** – Gofal dydd achlysurol ar gyfer plant 0 hyd at 12 oed mewn mangreoedd annomestig. Mae angen cofrestru darparwyr os ydynt yn cynnal sesiynau am fwy na dwy awr y dydd a mwy na phum niwrnod y flwyddyn, hyd yn oed pan fo plant unigol yn mynychu am gyfnodau byrrach. Mae rhai mewn mangreoedd parhaol ac yn gofalu am blant tra bo'u rhieni'n gwneud gweithgareddau (ee. siopa neu chwareon). Mae eraill yn rhai dros dro sy'n gofalu am blant tra bo'u rhieni'n gwneud gweithgareddau amser penodol (ee. cynhadledd neu arddangosfa).

- **Darpariaeth chwarae mynediad agored** – Darpariaeth chwarae mynediad agored gyda staff yn bresennol yn gweithredu am fwy na 2 awr y dydd ar gyfer plant hyd at 12 oed - gall fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, mewn amrywiaeth o leoliadau, gyda mangre neu beidio, a gall gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon fel arfer yn darparu ar gyfer ystod eang o blant, 5 oed a throsodd fel arfer. Y pwrpas yw darparu cyfleoedd chwarae gyda staff ar gyfer plant, fel arfer pan nad yw eu rhieni yno. Ni chyfyngir ar symudiadau'r plant, heblaw pan fydd materion diogelwch yn gofyn hynny, ac ni chaiff y plant eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant.

  Ni fydd rhai o'r safonau gofynnol cenedlaethol, *neu rannau ohonynt*, yn berthnasol i ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored oherwydd natur y ddarpariaeth; lle nodir hyn, dylid dal i'w hystyried yn arferion da i'w hefelychu.

Rhaid i unigolion a sefydliadau sy'n gwneud cais am gofrestriad fodloni'r prawf statudol o dan adran 26 o'r Mesur, sef nad ydynt wedi eu datgymhwyso rhag cofrestru a'u bod yn bodloni ac yn debygol o barhau i fodloni gofynion Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd), a Rhannau 3, 4 a 5 ohonynt.

Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol cofrestru gofal i blant 12 oed neu hŷn, ond gall lleoliad sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i blant o dan 12 oed ofalu am blant 12 oed a hŷn.

Rhaid i leoliadau gofal dydd a ariennir i ddarparu addysg feithrin gydymffurfio â gofynion Cwricwlwm i Gymru, a amlinellir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

## Eithriadau: Pryd nad oes angen cofrestru?

Mae nifer o amgylchiadau lle na fyddai angen i berson sy'n darparu gofal ar gyfer y grŵp oed hwn gofrestru:

### Eithriadau o ran gwarchod plant:

- Os yw'r darparwr gofal yn rhiant, yn rhiant maeth neu'n berthynas i'r plentyn.
- Os nad yw cyfnod y gofal yn ystod unrhyw ddiwrnod yn dod i gyfanswm o fwy na dwy awr.
- Os darperir gofal gan berson a gyflogir yn uniongyrchol gan rieni hyd at ddau deulu (megis nani neu au pair) ac y darperir y gofal yng nghartref unrhyw un o'r teuluoedd.
- Os yw’r gofal yn cael ei ddarparu ddim ond rhwng 6pm ar unrhyw un diwrnod a 2am y diwrnod canlynol.
- Os yw ffrindiau yn gofalu am blant ei gilydd ac nad ydynt yn talu ei gilydd (drwy arian neu werth arian) am y gwasanaeth.

### Eithriadau gofal dydd:

- Os yw'r gofal a ddarperir am lai na chwe diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr ac os yw'r person wedi rhoi gwybod i AGGCC yn ysgrifenedig cyn yr achlysur cyntaf i'r fangre berthnasol gael ei defnyddio y flwyddyn honno.
- Os nad yw cyfnod y gofal yn ystod unrhyw ddiwrnod yn dod i gyfanswm o fwy na dwy awr.
- Os yw'r gofalwr wedi'i gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ddarparu gofal i blant sy'n derbyn gofal mewn cartref plant.
- Os darperir y gofal i blentyn sy'n cael llety mewn Cartref Gofal, mewn ysbyty fel claf neu mewn canolfan deuluol breswyl, neu os darperir y gofal fel rhan o weithgarwch unrhyw un o'r sefydliadau hyn (p'un a yw'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu gan ddarparwr y sefydliad yn uniongyrchol neu gan berson a gyflogir ar ran y darparwr).
- Os yw'r gofal ond yn digwydd rhwng 6pm a 2am, a hynny mewn gwesty, tŷ llety, neu sefydliad tebyg arall i blentyn sy'n aros yno ac os yw'r person sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i ddim mwy na dau gleient ar yr un pryd.

- Os darperir y gofal mewn ysgol ac os yw'n gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu addysg (lle mae 'ysgol' yn golygu ysgol a gynhelir yn ystyr adran 39 o Ddeddf Addysg 2002, ysgol annibynnol; neu ysgol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir)).

- Os yw'r gwasanaeth a ddarperir yn wasanaeth ieuenctid ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cyrraedd 11 oed, a bod unrhyw ofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ieuenctid hwnnw.

- Os yw'r gofalwr yn rhoi hyfforddiant yn unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

    - Chwaraeon.
    - Y celfyddydau perfformio.
    - Celf a chrefft.
    - Cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref.
    - Astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol lle bo'r plant yn iau na phump oed ac yn mynychu am fwy na phedair awr y dydd, neu lle bo'r person yn cynnig hyfforddiant mewn mwy na dau o'r gweithgareddau uchod.

Mae'n bwysig cysylltu ag AGC  i gael rhagor o gyngor er mwyn canfod a ddylid cofrestru darpariaeth gofal plant.

## Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel?

Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae **o ansawdd uchel** yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau sylfaenol, gan ystyried a gwella yn barhaus er mwyn cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant a theuluoedd yng Nghymru.

Gall gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd arddangos **ansawdd uchel** drwy**:**

- Ymdrechu'n barhaus i ragori ar ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- Sicrhau sgôr da neu well ar gyfer pob un o'r pedair thema arolygu, mae hyn yn arwydd o ansawdd uchel.

- Dangos tystiolaeth o arfer enghreifftiol.

- Defnyddio adnoddau ychwanegol i sicrhau ansawdd a gwella a gymeradwywyd gan y sector, e.e. Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a chynlluniau ansawdd awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector.

Mae ansawdd uchel yn rhywbeth a ddylai nodweddu pob agwedd ar wasanaeth. Mae cyfleoedd i arddangos ansawdd mewn perthynas â phob un o'r Safonau. Dylai gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd **ystyried** yn barhaus bob agwedd ar eu gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r holl ofynion sylfaenol, ac i nodi ac asesu pa mor dda y mae hyn yn cael ei wneud a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth lle bo angen.

Mae safonau 8 i 12 yn cyfeirio at **ansawdd y gofal** a ddarperir, gan roi sylw, er enghraifft, i feithrin, lles, gofal iechyd a maeth. Mae'r safonau sy'n ymwneud â staffio yn cyfeirio at sut y dylai ymarferwyr ystyried ansawdd eu harferion, ac mae Safon 18 yn amlinellu'r gofynion rheoliadol ar gyfer sefydlu prosesau i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a'r gofynion sy'n ymwneud ag **adrodd ar y broses o adolygu ansawdd y gofal**.

Mae offer a dulliau gwella ansawdd, gan gynnwys Adnoddau Chwarae, Dysgu a[4] Gofal Plentyndod Cynnnar yng Nghymru ar ddarparu ansawdd, yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel a datblygu eu harfer.

Isod, darperir dolenni defnyddiol i gyngor ac arweiniad pellach:

Canllawiau arolygu a sgorio AGC

Gwasanaethau sydd eisoes wedi eu cofrestru | Arolygiaeth Gofal Cymru

Cwlwm

Chwarae Cymru

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ym mis Ionawr 2004, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) fel sail ei pholisïau ar gyfer plant a phobl ifanc. Ym mis Ionawr 2011, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfraith newydd - Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 - i sicrhau

[4] Mae adnoddau ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac yn dilyn adborth, byddant yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi ym mis Mehefin 2024

bod yr egwyddor hon yn cael ei rhoi ar waith. Derbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol a daeth yn ddeddf yng Nghymru ym mis Mawrth 2011.

Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol i blant yw'r Confensiwn ac mae'n rhestru'r hawliau sydd gan blant a rhwymedigaethau llywodraethau a phob oedolyn i hybu'r hawliau hynny. Mae Erthyglau'r Confensiwn yn cwmpasu amrywiaeth eang o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ac maent yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc o'u geni i ddeunaw oed.

O gofio mai'r Confensiwn yw’r sail ar gyfer dull Llywodraeth Cymru o lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n rhoi ystyriaeth i'w hawliau, mae'n bwysig deall sut mae'r gwaith hwn yn helpu i gyflawni ei hymrwymiad i wireddu'r hawliau yn y Confensiwn.

Mae gan bawb sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, ac sy'n gweithio gyda hwy, rôl i'w chyflawni i gydnabod hawliau plant a'u helpu i gyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod (Erthygl 19); yr hawl i ddweud eu barn ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy (Erthygl 12) a'r hawl i chwarae ac ymuno mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol (Erthygl 31). Weithiau ystyrir - yn anghywir felly - bod hawliau mewn gwrthgyferbyniad â lles plant, ond mae erthyglau'r Confensiwn i gyd yn cyfrannu gyda'i gilydd i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel, eu meithrin a'u trin â pharch.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Saith Nod Craidd ar sail y Confensiwn. Mae'r rhain yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

**Nod 1** yn cael dechrau teg mewn bywyd a'r sylfaen orau bosibl er mwyn tyfu a datblygu yn y dyfodol (Erthyglau 3, 29 a 36).

**Nod 2** yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddi a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol (Erthyglau 23, 28, 29 a 32).

**Nod 3** yn mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chael eu hecsbloetio (Erthyglau 6, 18-20, 24, 26-29, 32-35, 37 a 40).

**Nod 4** yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol (Erthyglau 15, 20, 29 a 31).

**Nod 5** yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu tras a’u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod (Erthyglau 2, 7, 8, 12-17 ac 20).

**Nod 6** bod ganddynt gartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol (Erthyglau 19, 20, 25, 27, 32-35).

**Nod 7** nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi (Erthyglau 6, 26, 27 a 28).

Sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru rôl Comisiynydd Plant Cymru yn 2001. Rôl y Comisiynydd Plant yw hybu a gwarchod hawliau a lles plant Cymru, gan sicrhau bod ganddynt lais, a'u bod yn dylanwadu ar newidiadau o ran polisi ac arferion.

## Cwricwlwm i Gymru

Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) Cwricwlwm i Gymru yn gyfreithiol, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol, yn cynnwys Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnydd ac asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed.

Rhaid i leoliadau gofal plant cofrestredig nas cynhelir, a gymeradwyir ac a gyllidir gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin fabwysiadu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion cyfreithiol Cwricwlwm i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cwricwlwm i leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir ei fabwysiadu, i sicrhau bod y gofynion cyfreithiol hyn yn cael eu bodloni.

Datblygwyd y cwricwlwm gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan dynnu ar arbenigedd o bob rhan o'r sector nas cynhelir, yn ogystal â safbwyntiau arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar. Ei nod yw meithrin ymdeimlad o falchder ac o berthyn ymhlith ymarferwyr a phlant, gan ddathlu diwylliant amrywiol y Gymru fodern.

Mae addysg feithrin o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad plentyn. Mae'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithredol a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Uchelgais y cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau gofal plant nas cynhelir a ariennir yw ennyn ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant, a fydd, os cânt eu meithrin, yn para am oes ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob un o'n plant i'w helpu i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru.

Dechreuodd lleoliadau gofal plant nas cynhelir a ariennir weithredu Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Bydd lleoliadau eraill nas ariennir yn cael eu hannog i ymgorffori'r cwricwlwm hwn yn eu gwaith hefyd.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae Safon 16 yn ymdrin yn benodol â chyfle cyfartal. Fodd bynnag, rhaid i ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn elfen glir o agweddau eraill ar y ddarpariaeth gofal plant. Bydd angen i'r rhai sy'n gwneud cais i gofrestru

ystyried sut y byddant yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth o dan bob un o wyth pennawd y Safon.

## Polisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru ac mae llawer o feysydd polisi yn effeithio ar ofal a lles plant. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chwarae a gweithgarwch, iechyd a maeth plant a babanod, y Gymraeg, lles emosiynol, cymryd rhan, yr amgylchedd a mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal plant, gwasanaethau gwaith chwarae a chyfleoedd chwarae mynediad agored yn rhan o'r ffordd y gweithredir y polisïau hyn.

## Ffynonellau eraill o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol ynghylch rheoleiddio ac arolygu ar wefan AGGCC: AGC

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu safonau uchel ar draws gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'n ceisio sicrhau bod gan y gweithlu yng Nghymru y sgiliau a'r cymwysterau iawn i weithio i safon broffesiynol uchel, a'i fod yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Ceir rhagor o wybodaeth ar eu gwefan: Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae CWLWM, consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae, yn cefnogi lleoliadau gofal plant a chwarae drwy arweiniad ac aelodaeth, gan hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy o ansawdd.

Mae Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol ar gyfer chwarae plant, yn rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn chwarae plant neu sy'n gyfrifol am ei ddarparu.

Mae’r Eirfa yn esbonio termau sy’n codi yn y ddogfen hon.

## Safon 1: Gwybodaeth [am y lleoliad]

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Bod y rhieni'n cael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud dewis cytbwys ynghylch y gwasanaeth gwarchod plant y mae arnynt ei angen.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

1.1. Bod rhieni yn cael digon o wybodaeth gywir i wneud penderfyniad deallus am y gwasanaeth.

1.2. Bod Datganiad o Ddiben wedi'i lunio fel y nodir yn y rheoliadau a'r wybodaeth a roddir i ddarpar rieni, ar lafar ac yn ysgrifenedig, am y gwasanaeth a ddarperir.

1.3. Bod y Datganiad o Ddiben a'r wybodaeth ychwanegol yn cynnwys:

| **Ar gyfer pob lleoliad** |
|---|
| Nodau ac amcanion y gwasanaeth |
| Niferoedd, oed a rhyw y plant a fydd yn derbyn gofal |
| Ystod anghenion y plant perthnasol a gaiff eu diwallu |
| Oriau agor |
| Staffio |
| Manylion llawn y ddarpariaeth, gan gynnwys:<br>• Y cyfleusterau sydd ar gael.<br>• Y gwasanaethau a gynigir.<br>• Y gweithgareddau a gynigir.<br>• Arferion. |
| Yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir |
| Telerau ac amodau darparu gofal |
| Y polisi derbyn plant |
| Sut i gysylltu â ni |
| Trefniadau ar gyfer delio â chwynion a phryderon |
| Trefniadau ar gyfer delio ag unrhyw argyfwng |
| Manylion trefniadau i adolygu'r Datganiad o Ddiben a rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r gwasanaeth |

| |
|---|
| Manylion anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill yn y fangre |
| **I warchodwyr plant yn unig**<br>Manylion eich teulu eich hun<br>A yw'r person cofrestredig yn ofalwr maeth<br>A yw trefniadau gweithio gyda chynorthwy-ydd yn gydnaws ag Atodiad A – Canllawiau i gynorthwywyr gwarchodwyr plant |

1.4. Bod copi yn cael ei gadw o adroddiad arolygu diweddaraf AGC, ac Estyn lle bo'n briodol, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu a lunnir yn ei sgil. Bod y dogfennau hyn ar gael i rieni.

# Safon 2: Y Contract

***Nid yw Safon 2 yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, er y dylid ystyried o hyd fod elfennau perthnasol ohoni yn ddymunol, fel arfer da.***

**Canlyniad:**

*Bod gan y rhieni gontract ysgrifenedig y cytunwyd arno â'r person cofrestredig.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

2.1. Y cytunir ar gontract ysgrifenedig gyda'r rhieni sy'n nodi disgwyliadau'r ddwy garfan o ran gofal y plentyn, y gweithgareddau a ddarperir a'r trefniadau busnes.

2.2. Bod rhaid i'r contract ysgrifenedig gynnwys y telerau a'r amodau, gan gynnwys gwybodaeth am:

| |
|---|
| Gyrraedd a chasglu'r plentyn |
| Salwch |
| Gweinyddu meddyginiaeth |
| Gwyliau |
| Anghenion deietegol |
| Beth i'w wneud mewn argyfwng |
| Polisi ar ymddygiad a sancsiynau |
| Materion ariannol a ffioedd (os o gwbl) |
| Polisi cyfle cyfartal |
| Cwynion |

## Safon 3: Asesu

***Nid yw Safon 3 yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, er y dylid ystyried o hyd fod elfennau perthnasol ohoni yn ddymunol, fel arfer da.***

| **Canlyniad:**<br><br>*Bod anghenion a dewisiadau'r holl blant yn cael eu nodi a bod eu rhieni yn gwybod sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu.* |
|---|

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

3.1. Bod anghenion a dewisiadau plant yn cael eu nodi, hyd y bo'n ymarferol, cyn eu gosod neu cyn iddynt fynychu.

3.2. Bod rhieni a phlant yn cael eu hannog i ymweld â'r ddarpariaeth gofal plant cyn i'r plentyn ddechrau mynychu i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu nodi'n glir.

3.3. Bod rhieni yn cael eu holi'n benodol am ddewisiadau, anghenion a galluoedd eu plentyn, ac am unrhyw wybodaeth arall y mae angen iddynt ei rhannu i sicrhau'r gofal gorau posibl i'r plentyn. Rhoddir ystyriaeth i ddymuniad y plentyn hefyd, naill ai drwy drafod â'r plentyn neu rieni'r plentyn.

## Safon 4: Diwallu anghenion unigol

| **Canlyniad:**<br><br>*Y cynllunnir ac y darperir ar gyfer anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys plant ag anableddau neu anghenion ychwanegol (gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol).* |
| --- |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Yn achos pob plentyn:**

4.1. Y gallant ddangos eu bod yn gallu diwallu anghenion y plant a osodwyd gyda hwy.

4.2. Bod ganddynt hwy (neu eu staff) y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol plentyn ac ymateb iddynt.

4.3. Gan gynllunio’r ddarpariaeth mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar y plentyn, bod lles a datblygiad pob plentyn yn cael ei hybu. Bod camau pwrpasol yn cael eu cymryd i holi safbwyntiau’r plant a’u teuluoedd, a bod y rheini yn cael eu hymgorffori i’r broses gynllunio a phenderfyniadau.

4.4. Y deëllir anghenion a dewisiadau plant unigol (gan gynnwys y rheini sydd o gymunedau ethnig lleiafrifol) mewn perthynas â iaith/ieithoedd eu cartref, y cyfrwng addysg (ee Cymraeg neu Saesneg) y bwriedir ei ddefnyddio a'u harferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol, ac y darperir ar gyfer hyn.

4.5. Bod preifatrwydd yn cael ei barchu pan ddarperir gofal personol iawn.

4.6. Bod y trefniadau staffio yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion plant unigol sy'n mynychu, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion ychwanegol.

**Yn achos plant ag anableddau neu anghenion ychwanegol:**

4.7. Os oes gan blentyn, neu os yw’n bosibl bod gan blentyn anghenion cymorth ychwanegol, bod darparwyr a rhieni'n gweithio gyda'i gilydd fel bod camau priodol yn cael eu cymryd i gael cyngor neu gymorth.

4.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw i rieni i hawliau o dan y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac mae SNAP Cymru yn cynnig cyngor annibynnol a chyfarwyddyd ar y cymorth sydd ar gael i rieni plant y blynyddoedd cynnar sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY.

4.9. Bod camau priodol yn cael eu cymryd os canfyddir bod gan blentyn, neu os yw'n bosibl bod gan blentyn anghenion ychwanegol.

4.10. Bod plant ag anableddau neu anghenion ychwanegol yn gallu manteisio, ynghyd â'u cyfoedion, ar y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r cyfleoedd chwarae a ddarperir er mwyn hybu eu lles a'u datblygiad.

4.11. Bod yr amgylchedd ffisegol, hyd y bo'n rhesymol, yn addas i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol.

4.12. Lle nodir y gallai fod angen cymorth arbenigol neu gyfarpar, y dylai'r lleoliad gysylltu â'r awdurdod lleol.

**Yn achos plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY):**

4.13. Os yw darparwr yn credu bod gan blentyn angen dysgu ychwanegol (ADY), lle bynnag y bo'n bosibl, bod hyn yn cael ei drafod gyda'i riant. Gall naill ai'r darparwr neu'r rhiant dynnu sylw'r awdurdod lleol bod gan y plentyn, neu y gallai fod gan y plentyn ADY. Wrth ymateb, rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn y gofynion a'r canllawiau a nodir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

4.14. Bod lleoliadau gofal plant cofrestredig nas cynhelir sydd wedi'u cymeradwyo ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin:

- â rôl o ran cefnogi awdurdodau lleol i nodi ADY ac o ran helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol
- yn gorfod rhoi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod ADY, yn unol â threfniadau ariannu'r awdurdod lleol.

4.15. Bod plant ag ADY yn gallu manteisio mewn ffordd gyfartal, ynghyd â'u cyfoedion, ar y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r cyfleoedd chwarae a ddarperir.

## Safon 5: Cofnodion

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Bod hawl gan y rhieni ac AGC i weld yr holl gofnodion y mae'r person cofrestredig yn eu cadw, fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod pethau'n rhedeg yn llyfn yn y lleoliad.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

5.1. Bod cofnodion yn cael eu cadw fel sy'n ofynnol gan Reoliad 30, Atodlen 3 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd).

| **Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw yn y fangre tra bo'r plant dan sylw yn derbyn gofal:** |
|---|
| Enw, cyfeiriad a rhif ffôn:<br>• y person cofrestredig.<br>• yr unigolyn cyfrifol, os yw'n gymwys.<br>• pob person arall sy'n byw, yn gweithio neu a gyflogir yn y fangre lle darperir gofal plant.<br>• unrhyw berson arall a fydd mewn cyswllt rheolaidd gyda'r plant perthnasol heb eu goruchwylio. |
| Enw, cyfeiriad cartref, dyddiad geni a rhyw pob plentyn perthnasol. |
| Cofnod dyddiol o enwau'r plant perthnasol, yr oriau y buont yno ac enwau'r sawl a ofalodd amdanynt. |
| ***Nid yw'r oriau y buont yno yn rhywbeth y mae'n rhaid ei nodi yn achos darpariaeth chwarae mynediad agored*** |
| Enw, cyfeiriad a rhif ffôn rhiant pob plentyn perthnasol. |
| Unrhyw anghenion deietegol neu iechyd arbennig neu alergedd unrhyw blentyn perthnasol.<br>**Nid yw'n orfodol yn achos darpariaeth chwarae mynediad agored, er y dylid ystyried o hyd fod elfennau perthnasol ohoni yn ddymunol, fel arfer da.** |

| |
|---|
| Enw a chyfeiriad y meddyg cofrestredig y mae pob plentyn perthnasol wedi'i gofrestru gydag ef. |
| Cofnod o'r damweiniau, y salwch difrifol a'r digwyddiadau pwysig eraill yn y fangre berthnasol. |
| Datganiad o'r weithdrefn i'w dilyn yn achos tân neu damwain. |
| Datganiad o'r weithdrefn i'w dilyn lle mae gan riant neu blentyn gŵyn am y gwasanaeth a ddarperir gan y person cofrestredig. |
| Datganiad o'r trefniadau ar gyfer diogelu'r plant perthnasol, gan gynnwys trefniadau i warchod y plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos honiadau o gam-drin neu esgeuluso. |
| Datganiad o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd plentyn perthnasol yn mynd ar goll neu os na chaiff ei gasglu. |
| Enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob aelod cyfredol o'r pwyllgor neu'r corff llywodraethu os mai sefydliad anghorfforedig yw'r ymgeisydd. |

5.2. Y caiff cofnodion gynnwys gwybodaeth gyswllt ddefnyddiol arall, megis rhifau ffôn symudol a chyfeiriadau e-bost, neu fanylion rhieni eraill neu ofalwyr plentyn perthnasol, yn ogystal â'r rhai sy'n ofynnol yn y rheoliadau.

5.3. Bod y cofnodion am blant unigol yn cael eu rhannu â rhiant y plentyn, ac eithio lle byddai hyn yn peryglu lles y plentyn.

5.4. Bod cofnodion am blant unigol yn cael eu cadw am gyfnod o dair blynedd o leiaf ar ôl y dyddiad olaf pan fynychodd y plant. Gallai gofynion yswiriant person cofrestredig olygu bod angen cadw'r cofnodion am gyfnod hirach.

5.5. Bod cofnodion am blant unigol yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol a'u bod ar gael bob amser i AGC eu harolygu yn ôl y gofyn.

5.6. Y gofynnir i'r rhiant neu'r oedolyn arall sy'n casglu'r plentyn lofnodi cofnod o unrhyw ddamweiniau i gydnabod y cofnod.

## Safon 6: Gweithio mewn partneriaeth â rhieni

***Nid yw Safonau 6.5 i 6.11 yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, er y dylid ystyried o hyd fod elfennau perthnasol ohonynt yn ddymunol, fel arfer da.***

**Canlyniad:**

*Bod y rhieni yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau, cynnydd a datblygiad eu plentyn ac yn cael gwybodaeth gyson amdanynt.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

6.1. Bod y person cofrestredig a'r staff yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni i ddiwallu anghenion y plant, yn unigol ac fel grŵp.

6.2. Bod cyfrifoldeb y rhieni, yn anad neb arall, dros eu plant yn cael ei gydnabod a'i barchu.

6.3. Bod y rhieni yn cael gwybod am yr holl arferion a ddilynir wrth ofalu am eu plant.

6.4. Bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i bob rhiant.

6.5. Bod manylion am yr hyn y mae eu plentyn wedi'i gyflawni yn ystod y dydd, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiad pwysig neu newid yn ei ymddygiad, yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.

6.6. Wrth ofalu am blant dan 2 oed, bod system ddyddiol i gyfnewid gwybodaeth rhwng y rhiant a'r gweithiwr allweddol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am anghenion ac arferion datblygu a gofal newidiol y plentyn.

6.7. Bod gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhoi i rieni am weithgareddau; er enghraifft, drwy arddangosfeydd wal, lluniau neu enghreifftiau o waith y plant.

6.8. Bod cofnodion yn cael eu cadw gyda manylion am y plentyn a nodiadau ar ei gynnydd. Bod gan rieni fynediad i bob cofnod ysgrifenedig am eu plentyn (ac eithrio'r sefyllfa yn Safon 6.10 isod).

6.9. Mai dim ond pan ddaw unigolion penodol a enwir gan y rhieni i'w casglu y caiff plant o dan 8 oed eu rhyddhau o ofal y ddarpariaeth. Dim ond yn unol â threfniadau sydd wedi'u cytuno â rhieni y caiff plant dros 8 oed eu rhyddhau o ofal y ddarpariaeth.

6.10. Y bydd y polisi am breifatrwydd a chyfrinachedd ar gael. Bod unrhyw geisiadau gan drydydd partïon am wybodaeth yn cael eu trafod gyda'r rhieni a bod gwybodaeth amdanynt ond yn cael ei rhannu gyda'u

cydsyniad hwy. Gellir gwneud eithriad lle mae'n ofynnol cofnodi pryderon am les neu ddiogelwch y plentyn; er enghraifft, mewn perthynas â diogelu plant.

6.11. Os pennir plentyn fel plentyn mewn angen (Adran 17 o Ddeddf Plant 1989), bod y person cofrestredig, gyda chaniatâd y rhieni, yn rhoi'r wybodaeth briodol i asiantaethau cyfeirio.

**Mewn Lleoliad Gofal Dydd:**

6.12. Bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni sy'n cynnwys rôl y rhieni ac unrhyw ddisgwyliadau o ran cymryd rhan ar y pwyllgor rheoli neu fel gwirfoddolwyr. Bod gwybodaeth lawn a chanllawiau yn cael eu rhoi i unrhyw wirfoddolwyr ac aelodau'r pwyllgor am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

## Safon 7: Cyfleoedd i chwarae a dysgu

***Nid yw Safonau 7.9 i 7.11 yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored na darpariaeth y tu allan i'r ysgol , er y dylid ystyried o hyd fod elfennau perthnasol ohonynt yn ddymunol, fel arfer da.***

| **Canlyniad:**<br><br>*Bod y plant yn profi ystod o brofiadau - gan gynnwys chwarae rhydd, distrwythur a hunan-gyfeiriedig - sy'n cyfrannu at eu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol, ieithyddol a chreadigol.* |
|---|

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

7.1. Bod anghenion unigol y plentyn yn cael eu diwallu a'i les yn cael ei hybu drwy gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae a gweithgareddau i hybu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, creadigol, ieithyddol a deallusol.

7.2. Bod yr adnoddau a ddefnyddir, y cyfleoedd chwarae, y profiadau uniongyrchol a'r gweithgareddau a ddarperir yn helpu datblygiad plant ac yn adeiladu ar eu chwilfrydedd naturiol.

7.3. Bod plant yn cael cyfle i fod yn egnïol, o dan do ac yn yr awyr agored, ynghyd ag amser i ymlacio.

7.4. Bod gan blant gyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored.

7.5. Bod yr amgylchedd yn un sy'n annog plant i fod yn hyderus, yn annibynnol a datblygu eu hunan-werth, parchu eraill a datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n iawn a'r hyn sy'n anghywir.

7.6. Bod perthynas dda yn cael ei hadeiladu gyda phlant a'u rhieni i hwyluso dealltwriaeth dda o anghenion unigol ac amgylchiadau yn y cartref.

7.7. Y caiff y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc[5] eu cymhwyso i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu:

- Bod oedolion sy'n gofalu am y plant yn gwrando ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddweud ac yn ei werthfawrogi, yn siarad â nhw am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn cymryd camau i'w hannog i ymchwilio i'w potensial llawn.

[5] Bilingual-Participation-Standards-poster2016.pdf (gov.wales)

- Bod cyfleoedd yn cael eu hystyried i gynnwys plant mewn penderfyniadau, gwerthuso a chynllunio ar amrywiaeth o lefelau.

7.8. Bod adnoddau yn cael eu trefnu fel eu bod ar gael yn hwylus i blant a staff i gefnogi chwarae a dysgu ymhlith plant.

7.9. Bod y staff yn arsylwi ar y plant ac yn defnyddio'r hyn maent yn ei weld i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

7.10. Wrth ddarparu gofal ar gyfer plant dan 2 oed:

- Bod plant yn rhyngweithio ag oedolyn cyson yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

- Bod cynlluniau clir i weithgareddau babanod.

**Lleoliadau a ariennir i ddarparu addysg feithrin**

7.11. Y deëllir egwyddorion y cwricwlwm ac y cânt eu cymhwyso mewn ffordd sy'n briodol i oedran, gallu a cham datblygu'r plant sydd yn eu gofal a natur y ddarpariaeth. Bydd lleoliadau nas ariennir yn cael eu hannog i ymgorffori’r cwricwlwm hwn yn eu gwaith hefyd.

## Safon 8: Maeth a lles

**Canlyniad:**

*Bod y plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gysurus gyda'u gofalwyr ac yn eu hamgylchedd, a bod eu hawliau yn cael eu parchu.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

8.1. Bod y staff yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i oblygiadau o ran eu gwaith a'u hymwneud â'r plant.

8.2. Bod polisïau'r lleoliad a'r gofal a roddir yn hyrwyddo perthynas gynnes rhwng unigolion, ymdeimlad o ddiogelwch, hunan-werth, annibyniaeth a hyder i blant mewn amgylchedd sy'n ymateb ac yn meithrin.

8.3. Y cyfathrebir mewn ffordd gadarnhaol, yr anogir y plant ac y gwrandewir arnynt. Bod y staff yn edrych i lygaid y plant a bod y cyfathrebu ar lefel y plentyn yn gyffredinol.

8.4. Bod y plant yn gallu datblygu hyder a hunan-werth yn y lleoliad.

8.5. Bod y broses ymsefydlu'n brodol ar gyfer plant unigol a'u bod yn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr mewn ffordd sy'n cadw gofid y plant i'r lefel isaf bosibl.

8.6. Bod y babanod a'r plant ifanc iawn yn gallu datblygu ymlyniad i ofalwr cyson neu nifer fach o ofalwyr rheolaidd.

## Safon 9: Ymddygiad

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod ymddygiad plant yn cael ei reoli mewn modd sy’n parchu eu hawliau ac yn hybu eu lles a’u datblygiad.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

9.1 Bod yr oedolion sy'n gofalu am blant yn y ddarpariaeth yn gallu rheoli amrywiaeth eang o ymddygiad plant mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu lles a'u datblygiad ac yn parchu eu hawliau o dan y Confensiwn (Erthygl 19, er enghraifft) ac sy'n cydnabod y gall y rhesymau dros ymddygiad 'gwael' fod yn gymhleth.

9.2 Bod polisi rheoli ymddygiad ysgrifenedig yn cael ei lunio a'i weithredu sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn nodi'r dulliau a ddefnyddir i reoli ymddygiad plant. Bod hwn yn cael ei drafod gyda'r rhieni a bod y staff yn ei ddeall yn llawn ac yn ei ddilyn. Bod camau yn cael eu cymryd yn barhaus i adolygu'r polisi a bod AGC yn cael gwybod am unrhyw ddiwygiad o fewn 28 diwrnod.

9.3 Ei bod yn glir pwy o fewn y lleoliad sydd â chyfrifoldeb am faterion rheoli ymddygiad. Bod gan y person hwnnw’r sgiliau i gefnogi unrhyw staff eraill a'i fod yn gallu troi at gyngor arbenigol os nad yw'r dulliau arferol yn effeithiol gyda phlentyn penodol.

9.4 Bod ymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd gyson a phriodol o ran datblygiad, gan barchu lefel dealltwriaeth ac aeddfedrwydd pob plentyn unigol.

9.5 Bod ymddygiad cadarnhaol yn cael ei reoli mewn ffordd gadarnhaol, gydag oedolion yn modelu ymddygiad cadarnhaol gan ganmol ac annog a meithrin cydberthnasau da rhwng oedolion a phlant. Bod ymddygiad amhriodol - gan gynnwys bwlio - yn cael ei reoli ac yr eir i'r afael ag ef.

9.6 Bod oedolion sy'n darparu gofal neu gyfleoedd chwarae yn ymwybodol o unrhyw fwlio ac yn annog y plant i sôn am unrhyw bryderon.

9.7 Na ddefnyddir cosbau corfforol, megis ysgwyd neu daro plentyn byth, na'u bygwth.

9.8 Na wnaiff oedolion ddefnyddio unrhyw fath o ymyrraeth gorfforol, ee dal gafael yn y plant neu eu dal yn ôl yn gorfforol rhag gwneud rhywbeth, oni bai bod angen atal y plentyn, plant eraill neu oedolyn rhag cael anaf, neu atal niwed difrifol i eiddo. Bod unrhyw ddigwyddiad yn cael ei gofnodi a

bod y rhiant yn cael gwybod amdano y diwrnod hwnnw. Gweler ffframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol.

9.9 Na chaiff plant eu bychanu, eu dychryn na'u cywilyddio ac na fydd unrhyw un yn gweiddi arnynt.

## Safon 10: Gofal iechyd

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Bod anghenion gofal iechyd pob plentyn yn cael eu hadnabod ac yr eir i'r afael â hwy mewn ffordd briodol a bod plant yn elwa ar y ffordd yr hyrwyddir iechyd da.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Iechyd**

10.1 Bod iechyd y plant yn cael ei hyrwyddo a chamau cadarnhaol yn cael eu cymryd i atal haint rhag lledaenu drwy fesurau priodol mewn achosion o salwch.

10.2 Na dderbynnir unrhyw blentyn os ymddengys ei fod yn sâl. Os bydd plant yn sâl yn ystod ei amser yn y lleoliad gofal plant neu chwarae, y cymerir gofal i atal heintio plant eraill ac y rhoddir gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosibl.

10.3 Y rhoddir gwybod i rieni eraill os bydd plentyn sy'n mynd i'r lleoliad, neu unrhyw un arall yn y fangre (ee aelod o staff neu o'r teulu) wedi cael diagnosis o afiechyd heintus difrifol (ee. brech yr ieir, impetigo) gan gofio materion cyfrinachedd unigolion fel y bo'n briodol.

10.4 Bod y rhieni yn gwybod bod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r person cofrestredig neu'r gwasanaeth gofal plant am anghenion gofal iechyd eu plentyn ac - mewn ymgynghoriad â rhiant/rhieni y plentyn - yr eir i'r afael â'r anghenion hynny, gan gymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

10.5 Bod yn rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant cyn ceisio cyngor neu driniaeth feddygol frys.

10.6 Bod y fangre a'r cyfarpar yn cael eu cadw'n lân ac yn hylan.

10.7 Bod y staff yn cael gwybodaeth am bwysigrwydd arferion hylendid da ac yn ymwybodol ohonynt er mwyn atal haint rhag lledaenu. Bod y staff yn cael gwybod yn rheolaidd am weithdrefnau hylendid da.

10.8 Bod y plant yn cael eu hannog i ddysgu am hylendid personol da - ac ymarfer hynny - drwy'r arferion a ddilynir bob dydd.

10.9 Ei bod yn ddiogel i unrhyw anifeiliaid yn y fangre fod yn agos at y plant ac nad ydynt yn berygl iechyd.

10.10 Bod pyllau tywod yn cael eu gwarchod rhag cael eu heintio a bod y tywod yn lân.

### Hylendid Bwyd

10.11 Bod y sawl sy'n gyfrifol am baratoi a delio â bwyd yn gwbl ymwybodol o'r rheoliadau sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a hylendid ac yn cydymffurfio â hwy.

### Newid Cewynnau

10.12 Lle rhoddir gofal i fabanod a phlant mewn cewynnau, dylid llunio polisi newid cewyn a dylai'r staff fod yn gyfarwydd ag ef. Dylai'r polisi ymwneud â materion hylendid ac arferion diogelwch da.

10.13 Bod plant o dan 2 oed yn cael eu bwydo a'u newid gan eu gweithiwr allweddol neu gan yr un oedolyn.

### Ysmygu

10.14 Na chaniateir ysmygu ym mhresenoldeb y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliad gofal plant. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd dan do ac awyr agored y fangre lle darperir gofal plant. Fodd bynnag, dim ond pan ddefnyddir y safle at ddiben gofal dydd neu warchod plant y mae'n ofynnol cadw'r ardaloedd awyr agored yn ddi-fwg. Yn achos gwarchodwr plant sy'n darparu gofal yn ei gartref ei hun, mae'n ofynnol i ardaloedd awyr agored y cartref fod yn ddi-fwg os yw un neu fwy o'r plant yn yr ardal honno.

10.15 Bod arwyddion 'Dim Smygu' i'w gweld mewn darpariaeth gofal dydd i blant. Nid yw'n ofynnol gosod arwyddion 'Dim Smygu' yn ardaloedd awyr agored lleoliadau gofal plant, ond caiff darparwyr gofal plant ddewis gwneud hynny.

### Cymorth Cyntaf

10.16 Bod blwch cymorth cyntaf sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, a'r cynnwys yn cael ei archwilio'n gyson gan ychwanegu ato yn ôl yr angen. Lle bo'n briodol, dylid dynodi aelod o staff i fod yn gyfrifol am hyn. Dylai'r blwch cymorth cyntaf fod ar gael i staff, ond y tu hwnt i gyrraedd plant.

10.17 Bod lleoliadau gofal plant a chwarae annomestig hefyd yn cydymffurfio â gofynion cyffredinol hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gweithle a amlinellir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'u gweithwyr.

10.18 Bod gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf gymhwyster "addas". Rhaid i gynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf Pediatrig fod yn gyson â'r meini prawf a amlinellir yng nghanllawiau atodol y

Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn Atodiad B ar Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. **Rhaid cyflawni pob gofyniad newydd mewn perthynas â chymwysterau Cymorth Cyntaf Pediatrig erbyn diwedd Tachwedd 2024.**

10.19 Bod pob tystysgrif cymorth cyntaf yn cael ei diweddaru'n gyson a'i hadnewyddu bob 3 blynedd.

10.20 Bod gan o leiaf un person sy'n gofalu am y plant dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr, sy'n briodol ar gyfer oedran y plant y gofelir amdanynt.

10.21 Bod nifer digonol o staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf addas yn y fangre bob amser pan fydd y plant yn bresennol. Bod y nifer o staff sydd wedi cael hyfforddiant addas yn ddigonol o ystyried cynllun y fangre, ac i ba raddau y gall yr unigolion hynny ymateb yn gyflym i achosion brys, a chan ganiatáu ar gyer amgylchiadau lle bydd staff yn absennol neu yn cael eu galw o'r lleoliad yn annisgwyl.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Gwarchodwyr plant**

10.22 Bod yn rhaid i warchodwyr plant, ac unrhyw gynorthwy-ydd y gellid gofyn iddo fod yn gwbl gyfrifol am y plant, feddu ar dystysgrif lawn mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig cyn dechrau gwarchod plant.

10.23 Os na ofynnir i'r cynorthwy-ydd fod yn gwbl gyfrifol am y plant, bod ganddo dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng. Dylid ymgymryd â'r cwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau'r gwaith.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Lleoliadau Gofal Dydd (Gofal Dydd)**

10.24 Bod o leiaf un oedolyn wedi cael hyfforddiant ar gyfer pob deg plentyn, hynny yw bod ganddynt dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr.

10.25 Bod yr holl staff eraill (gan gynnwys gwirfoddolwyr rheolaidd neu hyfforddeion) sydd wedi'u cynnwys yn y cymarebau staffio oedolion:plant yn dilyn hyfforddiant 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng a bod ganddynt dystysgrif gyfredol.

10.26 Bod dechreuwyr newydd yn ymgymryd â chwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau'r gwaith, ond gellir eu cynnwys yn y cymarebau staff:plant gofynnol tra bo'r hyfforddiant yn cael ei gwblhau, ar yr amod bod gan bob aelod arall o'r staff yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf a'r tystysgrifau cyfredol gofynnol.

10.27 Bod nifer digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn Cymorth Cyntaf yn mynd gyda’r plant ar unrhyw dripiau.

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Chwarae Mynediad Agored**

10.28 Mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored sy'n derbyn plant o dan 8 oed, bod o leiaf un oedolyn wedi cael hyfforddiant ar gyfer pob 13 plentyn, hynny yw bod ganddynt dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr.

10.29 Mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored sy’n derbyn plant dros 8 oed, bod gan o leiaf un unigolyn dystysgrif gyfredol o gwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr, a’u bod yn bresennol bob amser.

10.30 Bod hyfforddiant Cymorth Cyntaf a roddir i’r holl staff eraill yn adlewyrchu amgylchiadau’r lleoliad ac yn seiliedig ar asesiad risg.

## Safon 11: Meddyginiaeth

**Canlyniad:**

*Bod plant yn cael eu diogelu gan bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad am feddyginiaeth ac yn derbyn y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

11.1 Bod polisi clir, a ddeëllir ac a weithredir gan bawb o'r staff ac a drafodwyd gyda'r rhieni ynghylch storio a gweinyddu meddyginiaeth. Bod y polisi yn cydymffurfio â thelerau yswiriant y person cofrestredig.

11.2 Bod y rhiant yn rhoi caniatâd ysgrifenedig cyn i unrhyw feddyginiaeth gael ei rhoi.

11.3 Os rhoddir meddyginiaeth i blentyn, bod yna ddealltwriaeth o sgil-effeithiau posibl y feddyginiaeth. Os yw’r plentyn yn cymryd ei feddyginiaeth ei hun, bod hyn yn digwydd yn unol â chanllawiau ysgrifenedig gan y rhiant a chyda dealltwriaeth o sgil-effeithiau posibl y feddyginiaeth.

11.4 Yr holir y person sy'n dod â'r plentyn i'r lleoliad pryd yn union y gweinyddwyd y feddyginiaeth ddiwethaf.

11.5 Na weinyddir meddyginiaethau presgripsiwn oni bai bod meddyg wedi'u rhagnodi ar gyfer y plentyn hwnnw.

11.6 Os yw gweinyddu meddyginiaethau presgripsiwn yn galw am wybodaeth dechnegol neu feddygol, bod hyfforddiant unigol yn cael ei roi gan weithiwr iechyd proffesiynol cymwys. Bod yr hyfforddiant yn benodol i'r plentyn unigol dan sylw.

11.7 Nad yw unrhyw feddyginiaeth a dderbynnir yn y lleoliad yn hen.

11.8 Bod meddyginiaeth yn cael ei storio yn y cynhwysydd gwreiddiol, wedi'i labelu'n glir gydag enw'r plentyn, ac na all plant ei chyrraedd.

11.9 Bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw o bob meddyginiaeth a weinyddir i blant, a bod rhieni yn llofnodi'r llyfr cofnod i'w chydnabod.

## Safon 12: Bwyd a diod

**Canlyniad:**

*Bod digon o ddiodydd a bwyd ar gyfer eu hanghenion yn cael eu darparu yn gyson i'r plant.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

12.1 Yr holir y rhieni am ofynion deietegol y plant unigol, gan gynnwys gofynion diwylliannol a chrefyddol a deietau therapiwtig ar gyfer alergeddau bwyd y rhoddwyd diagnosis swyddogol ohonynt, y cofnodir yr wybodaeth ac y cydymffurfir â'r gofynion.

12.2 Os yw'r plant yn derbyn prydau a/neu fyrbrydau, eu bod yn cael eu paratoi mewn ffordd ddiogel, sy'n gytbwys o ran maeth, o ansawdd da ac yn briodol o ran maint, gan ddilyn argymhellion Llywodraeth Cymru yn Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant[6]. Bod y bwyd a'r diod a gynigir yn amrywiol ac yn faethlon ac yn bodloni gofynion crefyddol, diwylliannol a deietegol pob un o'r plant.

12.3 Bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser i'r plant.

12.4 Bod bwyd yn cael ei storio'n ddiogel. Os yw rhieni yn darparu bwyd, eu bod yn cael gwybod beth gellir ei storio'n ddiogel.

12.5 Y cydymffurfir â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Iechyd Amgylcheddol.

12.6 Mewn lleoliadau lle mae amseroedd penodedig ar gyfer prydau bwyd a diodydd, y cânt eu gosod mewn ffordd sy'n rhoi cyfle i blant fod yn gymdeithasol, gan ddefnyddio byrddau, seddau a llestri a chyllyll a ffyrc priodol.

12.7 Os darperir gofal i fabanod a phlant dan 2 oed dylai:

- bwydo a newid cewynnau ddigwydd yn unol ag anghenion y plentyn unigol ac nid fel rhan o drefn y feithrinfa.
- cyfleusterau fod ar gael i gefnogi mamau sydd am barhau i fwydo ar y fron, ee i storio llaeth y fron yn ddiogel neu i ymweld er mwyn bwydo'u baban ar y fron yn ystod r amser y gofelir am y plentyn.

[6] Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ychwanegu popgorn at ei rhestr o beryglon tagu i fabanod a phlant bach. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r canllawiau Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant i adlewyrchu hyn, ac yn eu cyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'r cyfleusterau ar gael yn barhaol, y gwneir trefniadau dros dro yn ôl y gofyn.

- babanod gael eu dal wrth eu bwydo o botel, os yn bosibl gan yr un gofalwr neu weithiwr allweddol ar bob achlysur.
- ardal gael ei darparu lle mae dŵr yfed ar gael a chyfleusterau i baratoi bwyd babanod mewn ffordd hylan.
- cyfarpar sterileiddio addas gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarpar bwydo babanod a dymis.
- cofnodion o'r bwyd a roddir i fabanod gael eu cadw, a'u dangos i'r rhiant/rhieni.

## Safon 13: Person addas

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n llawn gan y sawl sy'n gofalu amdanynt.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

13.1 Bod pawb sydd dan hyfforddiant yn gweithio dan oruchwyliaeth agos bob amser.

13.2 Bod yr holl staff yn cael hyfforddiant sefydlu sy'n cwmpasu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant yn ystod wythnos gyntaf eu cyflogaeth;

13.3 Y rhoddir sylw i anghenion hyfforddi parhaus y staff ac y darperir ar eu cyfer yn rheolaidd.

13.4 Bod yr holl staff cyflogedig yn cael eu goruchwylio’n rheolaidd ar sail un-i-un, gan eu hannog i ystyried ansawdd eu harferion a chodi unrhyw bryderon o ran diogelwch. Eu bod hefyd yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn[7].

### Safon 13: Person addas (Gwarchodwr Plant)

*Gweler Atodiad A – Canllawiau i Gynorthwywyr Gwarchodwyr Plant i gael gwybod mwy am weithio gyda chynorthwy-ydd.*

Mae’r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

13.1(GP) Bod y gwarchodwr plant, ac unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir ganddo, yn addas i ofalu am blant hyd at 12 oed, ac yn meddu ar y sgiliau, y profiad a'r cymwysterau priodol i fodloni anghenion y plant.

13.2(GP) Bod y gwarchodwr plant, ac unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir ganddo, yn abl yn feddyliol ac yn gorfforol i ofalu am blant.

13.3(GP) Rhaid i’r gwarchodwr plant fod wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs cyn-cofrestru priodol a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

13.4(GP) Rhaid i unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir gan warchodwr plant fod wedi cwblhau’n llwyddiannus gwrs priodol a gydnabyddir yn Fframwaith

[7] Mae rhagor o wybodaeth am arferion da wrth recriwtio, rheoli a goruchwylio staff ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gofyn i gynorthwywyr fod wedi ennill y cymhwyster gofynnol erbyn diwedd Tachwedd 2024.

13.5(GP) Bod y gwarchodwr plant, unrhyw gynorthwy-ydd, ac unrhyw unigolion eraill 16 oed neu'n hŷn sy'n byw, yn gweithio (gan gynnwys gwaith gwirfoddol) neu sydd am reswm arall yn bresennol yn y fangre berthnasol, ac sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r plant, neu sy'n debygol o wneud hynny, wedi mynd drwy broses wirio sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn cynnwys archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bod pob archwiliad yn cael ei gwblhau cyn i'r gwarchodwr plant ac unrhyw gynorthwy-ydd ddechrau gofalu am blant.

13.6(GP) Bod y gwarchodwr plant yn rhoi gwybod i AGC am ei fwriad i gyflogi neu i weithio gydag unrhyw gynorthwywyr i ofalu am y plant.

13.7(GP) Bod y gwarchodwr plant, fel y person cofrestredig, yn gyfrifol am waith unrhyw gynorthwy-ydd, ac yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiogelwch, lles a datblygiad y plant yn ei ofal. Rhaid i'r gwarchodwr plant ddefnyddio'r cynorthwy-ydd mewn ffordd effeithiol a bod yn fodlon bob amser bod y cynorthwy-ydd yn gymwys ym mhob rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Bod y gwarchodwr plant yn cadw ffeil staff ar gyfer pob cynorthwy-ydd, a fydd yn cynnwys cofnodion sy'n nodi eu henw, eu cyfeiriad, eu rhifau cyswllt, manylion y broses o'u recriwtio, eu sefydlu, eu goruchwylio, eu harfarnu, eu hyfforddiant a'u cymwysterau.

13.8(GP) Bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chadw o ddydd i ddydd:

- enwau'r bobl sy'n bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol yn y cartref tra bydd y plant yn cael eu gwarchod.
- enwau a chyfeiriadau'r cynorthwywyr (os ydynt wedi'u cyflogi).
- oriau gwaith unrhyw gynorthwy-ydd, gan gynnwys unrhyw oriau pan oeddent yn gweithio ar eu pen eu hunain, ac enwau'r plant yr oeddent yn gyfrifol amdanynt yn ystod yr adegau hyn.

## Safon 13: Person addas (Gofal Dydd)

Mae’r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Yn berthnasol i’r holl staff:**

13.1(GD) Bod y darparwr gofal dydd, ac unrhyw staff a gyflogir ganddo, yn addas i ofalu am blant hyd at 12 oed, a bod ganddynt y sgiliau, y profiad a’r cymwysterau priodol i fodloni anghenion y plant.

13.2(GD) Bod y staff yn abl yn feddyliol ac yn gorfforol i ofalu am blant.

13.3(GD) Bod y darparwr gofal dydd, ac unrhyw staff a gyflogir ganddo, ac unrhyw unigolion eraill 16 oed neu'n hŷn sy'n byw, yn gweithio (gan gynnwys gwaith gwirfoddol) neu sydd am reswm arall yn bresennol yn y fangre berthnasol, ac sy’n dod i gysylltiad rheolaidd â’r plant, neu sy'n debygol o wneud hynny, wedi mynd drwy broses wirio sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn cynnwys archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bod pob archwiliad yn cael ei gwblhau cyn i'r unigolion hyn ddechrau gweithio gyda phlant neu ddod i gysylltiad rheolaidd â nhw heb oruchwyliaeth.

**Yn achos y person â chyfrifoldeb (rheolwr):**

13.4(GD) Bod y canlynol yn wir amdano cyn ei benodi:

a. O leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio mewn lleoliad gofal dydd

**AC**

b. O leiaf cymhwyster lefel 3 a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru neu Restr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n eu disodli), sy’n briodol i’r swydd.

13.5(GD) Mewn lleoliad gofal dydd i blant rhwng 0 a 12 oed, bod ganddo:

a. O leiaf cymhwyster lefel 3 mewn gofal plant a gydnabyddir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

**AC**

b. O leiaf cymhwyster lefel 3 mewn gwaith chwarae neu ddyfarniad llai a gydnabyddir yn Rhestr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli).

13.6(GD) Mewn lleoliad darpariaeth chwarae i blant rhwng 5 a 12 oed, bod ganddo o leiaf gymhwyster lefel 3 mewn gwaith chwarae a gydnabyddir yn Rhestr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli).

13.7(GD) Mewn lleoliad cynllun chwarae yn ystod y gwyliau, bod ganddo:

a. O leiaf cymhwyster lefel 3 mewn gwaith chwarae a nodir yn Rhestr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli).

**NEU**

b. O leiaf cymhwyster lefel 3 mewn sector cysylltiedig

**A**

c. Dyfarniad Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau, a nodir yn Rhestr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli).

**Yn achos staff eraill (Cymwysterau):**

13.8(GD) Mewn gofal sesiynol

a. bod gan **o leiaf 40%** o'r holl "staff eraill" gymhwyster lefel 2 o leiaf o Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru neu Restr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd **A** bod gan o leiaf hanner o'r rhain gymhwyster ar lefel 3

b. rhaid i o leiaf 10% yn rhagor o'r holl "staff eraill" fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3

c. ni chaiff mwy na 50% o'r holl staff fod heb gymwysterau neu'n wirfoddolwyr.

Mewn lleoliadau gofal sesiynol, rhaid i o leiaf 50% o'r holl "staff eraill" fod wedi cymhwyso neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster.

Ni fydd llai na 40% o'r holl "staff eraill" yn meddu ar gymhwyster lefel 2 o leiaf **A** bydd gan o leiaf hanner o'r rhain gymhwyster ar lefel 3. Rhaid i **o leiaf 10%** yn rhagor o'r holl "staff eraill" fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3.

Ystyrir bod aelod o staff yn "gweithio tuag at" gymhwyster os bodlonir yr holl amodau canlynol:

- Mae'r Person Cofrestredig yn fodlon bod yr unigolyn yn gymwys ac yn gyfrifol;

- Mae tystiolaeth bendant bod yr unigolyn yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 neu 3 (e.e. tystiolaeth o gofrestru ar gwrs perthnasol), a bod amserlen wedi'i chytuno ar gyfer ennill y cymhwyster gofynnol (hyd at 3 blynedd);

- Mae'r unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru neu mae'n ymgymryd â hyfforddiant o'r fath;

- Mae'r unigolyn yn gweithio ochr yn ochr â staff sy'n gymwys i'r lefel ofynnol.

13.9(GD) Mewn darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

a. bod gan **o leiaf 40%** o'r holl "staff eraill" gymhwyster gwaith chwarae lefel 2, a gydnabyddir ar Restr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli), sy'n briodol i'r swydd **A** bod gan o leiaf hanner o'r rhain gymhwyster ar lefel 3

b. rhaid i o leiaf 10% yn rhagor o'r holl "staff eraill" fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3

c. ni chaiff mwy na 50% o'r holl staff fod heb gymwysterau neu'n wirfoddolwyr.

Mewn lleoliadau chwarae mynediad agored, rhaid i o leiaf 50% o'r holl "staff eraill" fod wedi cymhwyso neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster.

Ni fydd llai na 40% o'r holl "staff eraill" yn meddu ar gymhwyster lefel 2 o leiaf **A** bydd gan o leiaf hanner o'r rhain gymhwyster ar lefel 3. Rhaid i **o leiaf 10%** yn rhagor o'r holl "staff eraill" fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3.

Ystyrir bod aelod o staff yn "gweithio tuag at" gymhwyster os bodlonir yr holl amodau canlynol:


- Mae'r Person Cofrestredig yn fodlon bod yr unigolyn yn gymwys ac yn gyfrifol;

- Mae tystiolaeth bendant bod yr unigolyn yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 neu 3 (e.e. tystiolaeth o gofrestru ar gwrs

perthnasol), a bod amserlen wedi'i chytuno ar gyfer ennill y cymhwyster gofynnol (hyd at 3 blynedd);

- Mae'r unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru neu mae'n ymgymryd â hyfforddiant o'r fath;

- Mae'r unigolyn yn gweithio ochr yn ochr â staff sy'n gymwys i'r lefel ofynnol.




Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, er enghraifft: heb gyfrif y Person(au) sy'n Gyfrifol, os oes 10 aelod staff mewn lleoliad sesiynol neu leoliad chwarae mynediad agored[8]:

- Bydd angen cymhwyster lefel 2 o leiaf ar 40% o leiaf o'r rhain – yn yr enghraifft hon, 4 aelod staff;

- A byddai angen i o leiaf hanner o'r rhain fod â chymhwyster lefel 3 o leiaf – yn yr enghraifft hon, 2 aelod staff;

- Rhaid i o leiaf 10% o'r holl staff fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3, gan eu cynnwys yng nghymarebau cymwysterau staff – yn yr enghraifft hon, 1 aelod staff, â gweddill y staff yn wirfoddolwyr neu dan hyfforddiant, gyda thâl neu'n ddi-dâl.

13.10(GD) Mewn gofal dydd llawn:

a. Bod gan **o leiaf 60%** o'r "staff eraill" gymhwyster lefel 2 o leiaf o Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru **A** bod gan o

[8] Bydd lleoliadau yn talgrynnu i'r nifer o staff cyfan agosaf.

leiaf hanner o’r rhain gymhwyster ar lefel 3. (Ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn i blant rhwng 0 a 12 oed, gall fod ofyn i staff fod â chymhwyster a gydnabyddir ar Restr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o Gymwysterau Gofynnol (neu unrhyw restr sy'n ei disodli), sy’n briodol i’r swydd.

b. Rhaid i **o leiaf 20% yn rhagor** o’r holl “staff eraill” fod yn “gweithio tuag at” gymhwyster lefel 2 neu 3.

c. Nad oes mwy nag 20% o’r holl staff heb gymwysterau neu’n wirfoddolwyr.

Mewn lleoliadau gofal dydd llawn, rhaid i o leiaf 80% o’r holl “staff eraill” fod wedi cymhwyso neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster.


Ni fydd llai na 60% o’r holl “staff eraill” yn meddu ar gymhwyster lefel 2 o leiaf **A** bydd gan o leiaf hanner o’r rhain gymhwyster ar lefel 3. Rhaid i **o leiaf 20%** yn rhagor o’r holl “staff eraill” fod yn “gweithio tuag at” gymhwyster lefel 2 neu 3.

Ystyrir bod aelod o staff yn "gweithio tuag at" gymhwyster os bodlonir yr holl amodau canlynol:

- Mae'r Person Cofrestredig yn fodlon bod yr unigolyn yn gymwys ac yn gyfrifol;
- Mae tystiolaeth bendant bod yr unigolyn yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 neu 3 (e.e. tystiolaeth o gofrestru ar gwrs perthnasol) a bod amserlen wedi’i chytuno ar gyfer ennill y cymhwyster gofynnol (hyd at 3 blynedd);
- Mae'r unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant neu mae'n ymgymryd â hyfforddiant o'r fath;
- Mae'r unigolyn yn gweithio ochr yn ochr â staff sy'n gymwys i'r lefel ofynnol.

Mae Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru yn disgrifio pa gymwysterau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol leoliadau gofal plant a staff yn y lleoliadau hyn.

Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru wedi datblygu siart lif sy'n disgrifio pa gymwysterau sy’n ofynnol ar gyfer **gwaith chwarae** mewn gwahanol leoliadau, a staff yn y lleoliadau hyn.




Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, er enghraifft: heb gyfrif y Person(au) sy'n Gyfrifol, os oes 14 aelod staff mewn lleoliad[9]:

- Bydd angen cymhwyster lefel 2 o leiaf ar 60% o leiaf o'r rhain – yn yr enghraifft hon, 9 aelod staff;
- A byddai angen i o leiaf hanner o'r rhain fod â chymhwyster lefel 3 o leiaf – yn yr enghraifft hon, 5 aelod staff;
- Rhaid i o leiaf 20% o'r holl staff fod yn "gweithio tuag at" gymhwyster lefel 2 neu 3, gan eu cynnwys yng nghymarebau cymwysterau staff – yn yr enghraifft hon, 3 aelod staff;
- Â'r 2 aelod staff arall yn wirfoddolwyr neu dan hyfforddiant, gyda thâl neu'n ddi-dâl.

13.11(GD) Mewn lleoliadau sy'n gofalu am blant o dan 2 oed:

- Bod y staff sy'n gofalu am fabanod yn gymwys i wneud hynny.
- Bod o leiaf hanner y staff sy'n gofalu am fabanod wedi cael hyfforddiant yn y maes penodol hwn.
- Bod gan y person sydd â chyfrifoldeb am yr ystafell fabanod o leiaf ddwy flynedd o brofiad o weithio gyda phlant o dan ddwy flwydd oed.
- Bod y trefniadau staffio'n lleihau nifer yr unigolion sy'n ymwneud â phlentyn unigol (gweler safon 8.6).

[9] Bydd lleoliadau yn talgrynnu i'r nifer o staff cyfan agosaf.

## Safon 14: Trefniadaeth

**Canlyniad:**

*Bod y rhieni a’r plant yn elwa ar wasanaeth sydd wedi’i drefnu a’i gynllunio'n dda.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

14.1 Bod cynllun gweithredol yn cael ei ddatblygu a'i adolygu'n rheolaidd. Rhaid sicrhau bod y cynllun hwn ar gael i rieni. Nod y cynllun yw sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynllunio a'i drefnu'n dda a'i gwneud yn bosibl trefnu'r ddarpariaeth mewn ffordd mor hyblyg â phosibl gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac anghenion y plant a'r teuluoedd. Bydd cynnwys y cynllun yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth, ond gallai gynnwys:

- manylion y strwythur cyfundrefnol.
- cyfrifoldebau rheolwyr llinell.
- strwythur staffio sy’n nodi cyfrifoldebau arwain a rheoli.
- manylion y fangre a'r cyfleusterau a sut y cânt eu defnyddio.
- cynlluniau hyfforddi.
- gwybodaeth am ddatblygiad y gwasanaeth.
- cynlluniau gweithredu.

14.2 Bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol o fewn y ddarpariaeth i sicrhau diogelwch, lles a datblygiad plant.

14.3 Bod yna ddirprwy penodedig sy'n gallu cymryd cyfrifoldeb yn absenoldeb y person â chyfrifoldeb. Nid yw hyn yn berthnasol i warchodwyr plant.

14.4 Y gofelir am blant o dan ddwy oed mewn grwpiau o ddim mwy na 12. Fel arall, rhaid sicrhau na fydd mwy na 26 o blant mewn grŵp. Gall darpariaeth gynnwys mwy nag un grŵp. Er mai grwpiau allweddol llai gyda staff cyson ddylai fod y norm, gellir annog plant a staff i symud rhwng grwpiau yn y lleoliad yn ystod y dydd, er mwyn darparu profiad cyfoethocach i'r plant.

14.5 Bod pob plentyn yn cael ei ddyrannu i aelod o staff, a bydd yr unigolyn hwnnw yn weithiwr allweddol i'r plentyn. Y gweithiwr allweddol sy'n bennaf

gyfrifol am ei les bob dydd, ac sy'n sicrhau bod gwybodaeth am y plentyn yn cael ei rhannu â'r rhiant.

14.6 Bod plant yn cael y cyfle i ryngweithio â'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Rhaid i staff fynd ati i geisio datblygu perthynas dda â'r plant a rhoi cyfle i grwpiau bach o blant ryngweithio a chwarae gyda'i gilydd.

## Safon 15: Cymarebau staffio

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod y plant yn elwa gan fod y gymhareb oedolion:plant yn cydymffurfio â'r arferion gorau.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

15.1 Bod y gymhareb oedolion:plant ofynnol yn cael ei bodloni.

15.2 Nad yw unrhyw ofal a ddarperir ar gyfer plant dros 12 oed yn cael effaith andwyol ar y gofal a ddarperir ar gyfer plant hyd at 12 oed, a vice versa.

15.3 Na chynhwysir myfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliadau hyfforddi o 12 wythnos neu lai yn y gymhareb oedolion:plant.

### Gweithgareddau Arbenigol

15.4 Bod lleoliadau gofal dydd (gan gynnwys rhai sy'n darparu chwarae mynediad agored) sy'n cynnig gweithgareddau arbenigol yn cynnal a chadw gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer pob rhaglen o weithgareddau arbenigol. Rhaid i'r gweithdrefnau hyn:

- fod yn briodol i'r safle a lefel y gweithgareddau a gynhelir;
- diffinio'r cymwyseddau, y cymwysterau a/neu'r profiad y mae eu hangen ar staff sy'n gyfrifol ar wahanol lefelau; a
- bod yn gyson â Chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, pan fo hynny'n briodol, Canllawiau Pwyllgor Cynghori'r Ganolfan Weithgareddau, pan fyddant wedi'u llunio, a Chanllawiau'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol, pan fyddant yn berthnasol, i sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal yn ddiogel ar y lefel benodol.

15.5 Bod gan bob aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli gweithgaredd y cymwyseddau, y cymwysterau a'r profiad y mae eu hangen i wneud hynny. Mae angen trwydded weithgareddau os yw hynny'n berthnasol.

## Safon 15: Cymarebau staffio (Gwarchodwr Plant)

15.1(GP) Y nifer fwyaf o blant y caiff gwarchodwr plant ofalu amdanynt yw:

- 10 o blant hyd at 12 oed;
- O'r 10 plentyn hynny, ni all mwy na chwech fod o dan wyth oed;

- O'r chwe phlentyn hynny, ni all mwy na thri fod o dan 5 oed;
- O’r tri phlentyn hynny, ni chaiff mwy na dau fod o dan 18 mis oed fel arfer, er bod eithriadau'n bosibl yn achos brodyr a chwiorydd.

Enghreifftiau:

| Oedran y plentyn | Y nifer fwyaf o blant y ceir gofalu amdanynt | Gwarchodwr Plant 1 | Gwarchodwr Plant 2 | Gwarchodwr Plant 3 | Gwarchodwr Plant 4 | Gwarchodwr Plant 5 | Gwarchodwr Plant 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 18 mis | Dim mwy na 2 *(*ac eithrio pan fo brawd neu chwaer o fewn yr ystod oedran hwn).* | 0 | 1 | 2 | 1 | 2 | 3* |
| Rhwng 18 mis a 5 oed | Hyd at 3 (yn dibynnu ar nifer y babanod). Os yw plentyn yn mynychu addysg lawnamser, gellir ei gategoreiddio fel plentyn dros 5 oed. | 3 | 2 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Rhwng 5 ac 8 oed | Hyd at 6, yn dibynnu ar oedran y plant eraill sy’n cael gofal. | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Rhwng 8 a 12 oed | Hyd at 10, yn dibynnu ar oedran y plant eraill sy’n cael gofal. | 2 | 1 | 2 | 4 | 6 | 4 |

15.2(GP) Gellir categoreiddio plant rhwng tair a phump oed, sy’n mynychu darpariaeth addysg amser llawn, fel plant dros bump oed at ddibenion y cymarebau sy’n berthnasol i warchodwyr plant. Yn unol â Safon 15.1(GP), ni ddylai gwarchodwr plant ofalu am fwy na 10 plentyn ar unrhyw adeg.

15.3(GP) Mae’r cymarebau yn cynnwys unrhyw blant o dan 12 oed yn y fangre, gan gynnwys plant y gwarchodwr ei hun, ac unrhyw rai eraill y mae’n gyfrifol amdanynt.

15.4(GP) Os bydd gwarchodwr plant yn cyflogi cynorthwy-ydd, bydd yr un gymhareb oedolion:plant yn berthnasol i’r cynorthwy-ydd, o ran unrhyw blant ychwanegol. Fodd bynnag, gallai'r lle sydd ar gael i blant yn y fangre hefyd effeithio ar nifer y plant y gellir cofrestru'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

## Safon 15: Cymarebau staffio (Gofal Dydd)

15.1(GD) Mewn gofal dydd, y gymhareb staffio ofynnol yw:

- Un oedolyn: tri phlentyn o dan 2 oed.
- Un oedolyn: pedwar plentyn 2 oed.
- Un oedolyn: wyth plentyn 3–7 oed.
- Un oedolyn: deg plentyn 8-12 oed.

Mae'r cymarebau hyn yn cynnwys unrhyw blant i staff neu wirfoddolwyr ac yn berthnasol i unrhyw weithgarwch, er enghraifft hebrwng a chludo plant. Ceir ystyried gwirfoddolwyr rheolaidd yn y cymarebau staffio arferol.

15.2(GD) Bod o leiaf ddau aelod o staff ar ddyletswydd bob amser.

15.3(GD) Bod lefelau staffio'n cael eu cynnal yn ystod gwibdeithiau, ac o dan rai amgylchiadau efallai y bydd angen mwy o staff na hynny. Rhaid bod gan staff sy'n goruchwylio plant yn ystod gwibdeithiau gymhwyster lefel 3.

15.4(GD) Bod trefniadau addas wrth gefn wedi'u sefydlu ar gyfer argyfyngau neu pan fydd staff yn absennol yn ddirybudd. Rhaid sicrhau bod digon o staff a gwirfoddolwyr addas ar gael i ystyried egwyliau, gwyliau, hyfforddiant a salwch staff, ac amser y byddant yn ei dreulio gyda rhieni.

15.5(GD) Mae'r gymhareb oedolion:plant yn ymwneud â'r amser sydd gan staff i weithio'n uniongyrchol gyda phlant:

a. **Bydd** angen staff ac adnoddau rheoli ychwanegol i wneud gwaith rheoli, gan gynnwys, er enghraifft, ymgysylltu â rhieni a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal plant, goruchwylio staff a gofynion rheoleiddio, os yw’n effeithio ar y gymhareb ofynnol.

b. **Bydd** angen staff ac adnoddau ychwanegol i baratoi prydau bwyd neu fyrbrydau, gwneud gwaith domestig a chynnal a chadw’r mangreoedd a’r cyfarpar os yw'n effeithio ar y gymhareb ofynnol.

15.6(GD) Os yw natur y lleoliad gofal dydd yn golygu bod y nifer yn newid (ee yn achos crèche neu ddarpariaeth galw i mewn arall), rhaid bod digon o staff ar gael i sicrhau bod unrhyw grŵp o blant, sy'n newid yn gyson, yn ddiogel a bod y plant yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt i ymgartrefu. Ceir ystyried gwirfoddolwyr a hyfforddeion rheolaidd yn y cymarebau staffio arferol.

## Safon 15: Cymarebau staffio (Chwarae Mynediad Agored)

15.1(Ch) Y gymhareb staffio ofynnol mewn darpariaeth chwarae mynediad agored yw 1 oedolyn i 13 o blant o dan 8 oed. Nid yw plant o dan 5 oed yn mynychu darpariaeth o’r fath fel arfer. Efallai y bydd angen i'r cymarebau fod yn uwch yn achos cynlluniau sy'n gweithredu mewn parciau cyhoeddus.

15.2(Ch) Yn achos plant 8 i 12 oed, dylai’r gymhareb staffio fod yn ddigonol ac yn gymesur, a dylai gyfrannu at sicrhau amgylchedd cadarnhaol i’r plant. Dylai cymarebau staffio adlewyrchu amgylchiadau’r lleoliad, gan gynnwys y safle a’r gweithgareddau a wneir, sut y rheolir risgiau, profiad a chymwysterau staff, cyd-destun cymunedol, oedran a gallu’r plant, a dylid paratoi cynlluniau ar gyfer achosion brys. Cyfrifoldeb y gwasanaeth fydd pennu cymharebau o dan y safonau newydd, a bydd yn ddibynnol ar yr amgylchiadau amrywiol a geir mewn darpariaethau chwarae mynediad agored.

15.3(Ch) Os cynhelir darpariaeth chwarae dan do, rhaid bod gan y person cofrestredig system sy'n ei gwneud yn bosibl iddo wybod pa blant sy'n bresennol yn y fangre.

# Safon 16: Cyfle cyfartal

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Bod pob plentyn yn cael ei drin â'r un pryder a pharch.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

16.1 Bod cyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng unigolion yn cael eu hyrwyddo yn y lleoliad.

16.2 Bod polisi cyfle cyfartal wedi'i sefydlu, sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol, a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr ddeall a gweithredu'r polisi hwn, a rhaid iddo fod ar gael i rieni.

16.3 Bod pob plentyn ac oedolyn yn cael eu trin â'r un gofal a bod y person cofrestredig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r arferion perthnasol o beidio gwahaniaethu ym mhob maes, megis cyflogaeth, hyfforddiant, derbyn plant i ofal dydd a mynediad at yr adnoddau, y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael.

16.4 Dyma enghreifftiau o ddeddfwriaeth sy’n brwydro yn erbyn gwahaniaethu ac arferion da yn y maes:

Deddf Cydraddoldeb 2010: canllawiau - GOV.UK

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU[10]

Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw’n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu | LLYW.CYMRU

Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru | LLYW.CYMRU

[10] Darperir pecyn arfer gorau sy’n ymwneud â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a’i gyhoeddi maes o law. Caiff dolen i’r pecyn ei hychwanegu yn y Safonau.

## Safon 17: Gweithdrefnau ariannol

**Canlyniad:**

*Bod y plant a'u rhieni yn cael eu diogelu wrth i'r person cofrestredig weithredu gweithdrefnau ariannol cadarn.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

17.1 Bod gweithdrefnau ariannol effeithiol yn cael eu gweithredu.

17.2 Bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol wedi'i drefnu, yn ogystal ag yswiriant ar gyfer unrhyw gerbydau a ddefnyddir.

17.3 Bod cofnodion yr holl drafodion ariannol mewn perthynas â'r gofal a ddarperir i blant perthnasol ar gael i AGC ar gais.

## Safon 18: Ansawdd

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod y plant a'u rhieni yn elwa ar wasanaeth o safon sy'n cael ei fonitro'n effeithiol.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

18.1 Bod systemau a phrosesau effeithiol yn cael eu defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus, mewn ffordd sy’n bodloni gofynion Rheoliad 16 – Adolygu Ansawdd Gofal.

18.2 Y gofynnir am farn y plant a'u rhieni, staff ac ymarferwyr/gweithwyr proffesiynol eraill yn rheolaidd ynghylch pa welliannau y gellid eu gwneud, ac y rhoddir ystyriaeth i’r farn honno. Bod hyn yn cael ei ymgorffori fel rhan o’r prosesau i fesur llwyddiant y gwasanaeth.

18.3 Yn dilyn Adolygiad o Ansawdd y Gofal, eu bod, o fewn 28 diwrnod, yn paratoi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, ac yn sicrhau bod copi o'r adroddiad hwnnw ar gael mewn fformat priodol pan ofynnir amdano i rieni/gofalwyr, yr awdurdod lleol sy'n trefnu darpariaeth gwarchod plant neu ofal dydd ar gyfer plentyn penodol, staff a Gweinidogion Cymru. Rhaid gwneud hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

18.4 Bod yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn cynrychioli cylch gwella parhaus ac y dylai fod yn rhan o ddiwylliant o wella ansawdd. Mae hyn yn golygu defnyddio adnoddau a dulliau yn systematig fel Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar , cynlluniau ansawdd a gymeradwywyd gan y sector, adnoddau gwella a chanllawiau arfer da i asesu a gwella ansawdd y gofal a'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

18.5 Bod cyngor ac argymhellion AGC unrhyw gyrff cyhoeddus y mae’r lleoliadau yn gysylltiedig â nhw yn cael eu hystyried.

## Safon 19:  Cwynion

| **Canlyniad:**<br><br>*Bod y plant a'u rhieni yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando ar eu cwynion, yn eu cymryd o ddifrif ac yn gweithredu arnynt.* |
|---|

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

19.1 Bod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig syml ac eglur, sy'n hwylus i'w defnyddio ac sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau, ar waith. Dylai'r weithdrefn gwyno roi gwybodaeth am sut i gysylltu ag AGC (gan gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa berthnasol AGC).

19.2 Yr ymdrinnir â phob cwyn mewn modd sensitif ac yn gyfrinachol.

19.3 Bod cwynion yn cael eu hystyried, ac os yw'n bosibl, yr ymchwilir iddynt, ac y cânt eu datrys yn lleol.

19.4 Bod yr achwynydd yn cael gwybod, ar ddu a gwyn, am ganlyniad yr ymchwiliad o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y gŵyn.  Gyda chytundeb yr achwynydd, ceir estyn y cyfnod ar gyfer datrys y gŵyn hyd at 14 diwrnod ychwanegol os oes angen.

19.5 Bod cofnod ysgrifenedig cywir a manwl o bob cwyn yn cael ei gadw, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r achwynydd.
- natur y gŵyn.
- dyddiad ac amser y gŵyn.
- y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r gŵyn.
- canlyniad yr ymchwiliad i'r gŵyn.
- yr wybodaeth a roddwyd i'r achwynydd, gan gynnwys dyddiad yr ymateb.

19.6 Bod achwynwyr yn cael gwybod bod ganddynt ar unrhyw adeg hawl i gwyno wrth yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd ar gyfer plentyn penodol. Rhaid rhoi

gwybod hefyd i'r achwynwyr fod ganddynt hawl ar unrhyw adeg i gwyno wrth AGC[11].

[11] Disgrifir gweithdrefnau datrys lleol a ffurfiol yn fanylach yn Gwrando a Dysgu: Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Ngyhymru, Llywodraeth Cymru

## Safon 20: Diogelu

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod y plant yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod, a bod y rhieni'n hyderus bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i ddiogelu plant.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

20.1 Mai diogelu'r plentyn yw'r flaenoriaeth gyntaf; bod hyn yn gyfrifoldeb i **bawb.**

20.2 Bod polisi ysgrifenedig ar ddiogelu plant wedi'i sefydlu. Dylai'r polisi fod yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth lunio'r polisi hwn, rhaid i'r person cofrestredig hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

20.3 Y rhennir y polisi diogelu plant gyda'r rhieni cyn i blentyn gael ei dderbyn a'i fod yn nodi'n glir gyfrifoldebau'r staff dros gofnodi unrhyw amheuaeth o niweidio, cam-drin neu esgeuluso. Rhaid sicrhau bod y polisi yn cynnwys enwau a rhifau ffôn cyswllt, y gweithdrefnau i'w dilyn os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr a goblygiadau datgelu gwybodaeth.

20.4 Bod pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rôl. Bod aelod penodedig o staff wedi mynd ar gyrsiau hyfforddi ar ddiogelu ac amddiffyn a'i fod yn gyfrifol am gysylltu ag asiantaethau amddiffyn plant mewn unrhyw sefyllfa sy'n codi.

20.5 Bod unrhyw bobl sy'n gofalu am blant yn gallu rhoi'r polisi ar waith, eu bod yn ymwybodol o faterion diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, esgeulustod, camdriniaeth emosiynol a chamdriniaeth rywiol a'u bod yn gallu dilyn y gweithdrefnau.

20.6 Bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gofnodi pryderon yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru heb oedi.

20.7 Bod pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rôl. Mae Atodiad C, Canllawiau Diogelu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Rolau a Chyfrifoldebau yn manylu ar y mathau o rolau a geir ym maes gofal plant a gwaith chwarae, a'r hyfforddiant diogelu sy'n briodol i wahanol rolau o fewn y sector. **Rhaid cyflawni pob gofyniad newydd mewn perthynas â'r hyfforddiant Diogelu erbyn diwedd Tachwedd 2024.**

## Safon 21: Hysbysu am ddigwyddiadau pwysig

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Bod pobl yn gwybod am effeithiau'r newidiadau ar les plant.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Achosion sy'n codi**

21.1 Bod AGC yn cael gwybod am y pethau canlynol yn syth, yn unol â'r rheoliadau (Rheoliad 31, Atodlen 4), mewn perthynas â digwyddiadau pwysig:

- Achos yn y fangre berthnasol o unrhyw glefyd heintus sydd, ym marn unrhyw feddyg cofrestredig sy'n ymweld â phlentyn neu rywun arall yn y fangre, o gyflwr digon difrifol i roi gwybod i AGC amdano, neu o unrhyw anaf difrifol, salwch difrifol neu farwolaeth unrhyw blentyn neu berson arall yn y fangre.

- Unrhyw honiad o anaf difrifol y mae unrhyw berson sy'n gofalu am blant perthnasol yn y fangre, neu unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio yn y fangre, wedi'i achosi i blentyn, neu o unrhyw gamdriniaeth yr honnir ei bod wedi digwydd yn y fangre.

- Unrhyw ddigwyddiad arall sy'n debygol o effeithio ar addasrwydd y person cofrestredig i ofalu am blant, neu addasrwydd unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio yn y fangre i ddod i gysylltiad rheolaidd â phlant.

- Unrhyw ddigwyddiad pwysig arall sy'n debygol o effeithio ar les unrhyw blentyn yn y fangre.

**Achosion gweinyddol**

21.2 Bod AGC yn cael gwybod am y pethau canlynol yn syth, yn unol â'r rheoliadau (Rheoliad 31, Atodlen 4):

**Yn achos gwarchod plant:**

- Enw llawn, ac enwau blaenorol neu enwau eraill, dyddiad geni a chyfeiriad cartref unrhyw berson newydd sy'n gofalu am blant yn y fangre berthnasol neu unrhyw berson newydd sy'n byw neu'n gweithio yn y fangre honno.

- Unrhyw newid yn y math o ofal a ddarperir gan berson cofrestredig neu yn yr oriau y darperir gofal ynddynt.

**Yn achos gofal dydd:**

- Enw llawn, ac enwau blaenorol neu enwau eraill, dyddiad geni a chyfeiriad cartref unrhyw berson newydd â chyfrifoldeb, unrhyw un newydd sy'n gofalu am blant yn y fangre newydd, unrhyw un newydd sy'n byw yn y fangre honno, neu unrhyw un newydd sy'n gweithio ar yr un pryd ag y gofelir am y plant neu yn yr un rhan o'r fangre.

- Os darperir y gofal dydd gan bwyllgor neu gorff corfforaethol neu anghorfforedig, enw llawn, ac enwau blaenorol neu enwau eraill, dyddiad geni a chyfeiriad cartref Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd newydd, neu rywun arall sydd â swydd debyg yn y sefydliad.

- Unrhyw newid yn enw neu gyfeiriad cartref y person cofrestredig neu unrhyw un o'r unigolion a ddisgrifir uchod.

- Unrhyw newid yn enw neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu'r brif swyddfa, os mai sefydliad yw'r person cofrestredig.

- Unrhyw newid yn y cyfleusterau a gaiff eu defnyddio yn y fangre berthnasol, gan gynnwys newidiadau o ran nifer yr ystafelloedd, eu swyddogaethau, nifer y toiledau a'r basnau ymolchi, unrhyw gyfleusterau ar wahân i weithwyr sy'n oedolion a'r cyfleusterau parcio ceir.

## Safon 22:  Yr amgylchedd

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Y gofelir am y plant mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn addas ar eu cyfer.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

22.1 Bod y lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar i'r plant a'r rhieni a'i fod yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae.

22.2 Bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Bod y ddarpariaeth yn rhoi digon o le, mewn lleoliad priodol, ei fod yn groesawgar i'r plant, ac yn eu galluogi i gael gafael ar y cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo'u datblygiad.

22.3 Bod unrhyw fangreoedd sy'n rhan o'r ddarpariaeth yn lân, wedi'u goleuo'n dda â golau naturiol digonol, wedi'u hawyru'n ddigonol, wedi'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da ac wedi'u haddurno'n briodol.

22.4 Bod ffôn ar gael.

22.5 Bod tymheredd ystafelloedd yn cael ei gynnal ar o leiaf 18 gradd canradd (65 gradd Fahrenheit).

22.6 Bod y mannau chwarae yn ddigon mawr i roi lle i'r plant symud yn rhydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

22.7 Nad yw'r plant yn cael mynd i'r gegin oni bai ei bod yn cael ei defnyddio’n unswydd ar gyfer gweithgaredd plant dan oruchwyliaeth.

22.8 Bod y gegin yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran iechyd amgylcheddol a diogelwch bwyd.

22.9 Fel rheol, dylid darparu man chwarae awyr agored sy'n gysylltiedig â'r fangre. Rhaid iddo fod yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a rhaid mai dim ond y plant sy'n ei ddefnyddio pan fydd y ddarpariaeth ar waith. Mewn sefyllfa eithriadol, os nad oes modd darparu man chwarae awyr agored, rhaid mynd â'r plant i barciau neu feysydd chwarae lleol, neu rywle tebyg, yn rheolaidd.

22.10 Y gwneir trefniadau, lle bo angen, i sicrhau bod cyflenwad digonol o ddillad gwely glân, tyweli, dillad sbâr ac unrhyw lieiniau eraill ar gael bob amser.

## Safon 22: Yr amgylchedd (Gwarchodwr Plant)

22.1(GP) Bod y lle canlynol, o leiaf, ar gael i bob plentyn yn y man chwarae dan do:

- o dan 2 oed – 3.5 metr sgwâr.
- 2 i 7 oed – 2.5 metr sgwâr.
- 8 i 12 oed – 2.3 metr sgwâr.

22.2(GP) Wrth gyfrifo'r lle sydd ei angen ar gyfer pob grŵp oedran, gellir dynodi nifer o ystafelloedd i'w defnyddio yn y fangre (ac eithrio'r toiledau).

## Safon 22: Yr amgylchedd (Gofal Dydd)

22.1(GD) Mai dim ond y cyfleuster sy'n cael defnyddio'r fangre lle mae gofal dydd yn cael ei ddarparu ystod yr oriau gweithredu.

22.2(GD) Bod y lle canlynol, o leiaf, ar gael i bob plentyn yn y man chwarae dan do mewn gofal dydd (gan gynnwys darpariaeth chwarae mynediad agored):

- o dan 2 oed – 3.7 metr sgwâr.
- 2 oed – 2.8 metr sgwâr.
- 3 i 12 oed – 2.3 metr sgwâr.

22.3(GD) Wrth gyfrifo'r lle sydd ei angen ar gyfer pob grŵp oedran, gellir dynodi nifer o ystafelloedd i'w defnyddio yn y fangre. Fodd bynnag, rhaid eithrio'r toiledau, storfeydd, tramwyfeydd, ardaloedd penodol i'r staff, ardaloedd cotiau, ystafelloedd aml-bwrpas, a cheginoedd.

22.4(GD) Rhaid i'r cynllun gweithredol nodi'n glir sut y caiff y man chwarae dan do ei rannu a'i ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau ar gyfer grwpiau o blant a sut y caiff staff eu defnyddio ynddo. Mae disgwyl y bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn hyblyg ac y byddant yn amrywio yn ôl y gweithgaredd ac anghenion y grŵp y gofelir amdano.

22.5(GD) Os darperir gofal dydd ar gyfer babanod a phlant bach mewn mangre annomestig:

- rhaid bod ystafell ar wahân ar gael i blant o dan ddwy oed. Fodd bynnag, dylent allu cael cysylltiad â phlant hŷn, a dylid cynnwys manylion y ffordd y cyflawnir hyn yn y cynllun gweithredol a dylai AGC gytuno arnynt.

- rhaid darparu cyfleusterau newid cewynnau, sy'n bodloni safonau iechyd yr amgylchedd.

- rhaid darparu mannau tawel er mwyn hwyluso patrymau cysgu unigol.

22.6(GD) Lle darperir gofal mewn lleoliadau dan do, rhaid darparu o leiaf un toiled addas i'w ddefnyddio gan y plant y gofelir amdanynt ac un basn ymolchi gyda dŵr poeth a dŵr oer ar gael i bob 10 plentyn dros ddwy flwydd oed. Dylid darparu tyweli papur neu dyweli unigol ar gyfer pob plentyn. Rhaid i'r toiledau roi preifatrwydd i'r plant a bod yn briodol ar gyfer eu hoedran.

22.7(GD) Mewn lleoliadau gofal dydd, rhaid bod toiledau ar wahân ar gael i oedolion. Dylai ystafell neu fan fod ar gael i staff gael seibiant oddi ar y mannau y mae'r plant yn eu defnyddio.

22.8(GD) Mewn lleoliadau gofal dydd sydd â mangreoedd adeiledig, bod cegin â chyfarpar digonol i ddarparu prydau a byrbrydau i'r plant a'r staff yn y fangre. Os nad yw hyn ar gael, bod y person cofrestredig yn dangos sut y gwneir trefniadau digonol i ddarparu bwyd a diod i'r plant a'r staff.

22.9(GD) Bod man ar wahân ar gael i'r plant sydd am ymlacio, chwarae yn dawel neu gysgu. Rhaid sicrhau bod dodrefn priodol ar gael yn y man hwn. Ceir trawsnewid man chwarae arferol i'r diben hwn, ond rhaid bod y plant yn cael gorffwys yn ddiogel ynddo heb aflonyddu arnynt.

22.10(GD) Bod man digonol ar gael ar gyfer storio cyfarpar.

22.11(GD) Bod man ar gael lle y gellir cadw gwybodaeth gyfrinachol a chofnodion angenrheidiol yn ddiogel a lle y gall staff siarad â rhieni yn breifat.

# Safon 23: Cyfarpar

| **Canlyniad:** |
|---|
| *Bod y plant yn cael defnyddio celfi, cyfarpar, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

23.1 Bod celfi, cyfarpar a theganau'n cael eu darparu sy'n addas i'w diben ac yn helpu i greu amgylchedd hawdd i'w ddefnyddio ac sy'n ysgogi'r plant. Rhaid eu bod wedi'u dylunio'n addas ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a rhaid eu bod mewn cyflwr addas ac yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch Prydeinig ac Ewropeaidd neu'r Rheoliadau Teganau (Diogelwch)[12] perthnasol os yw'n briodol.

23.2 Bod digon o deganau a deunyddiau chwarae addas ar gael er mwyn darparu gweithgareddau sy'n ysgogi'r plant a chyfleoedd chwarae ym mhob maes chwarae, dysgu a datblygu. Rhaid i'r rhain fod yn briodol ar gyfer oedrannau ac anghenion datblygu unigol y plant sy'n mynychu, a rhaid iddynt hyrwyddo eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal.

23.3 Os defnyddir meysydd chwarae cyhoeddus heb oruchwyliaeth, rhaid i'r plant beidio â defnyddio cyfarpar diffygiol.

23.4 Os darperir lle y tu mewn i adeilad, rhaid bod digon o gadeiriau a byrddau o faint plentyn ar gael er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud trefniadau hyblyg i grwpiau o blant chwarae a bwyta gyda'i gilydd.

23.5 Bod cyfarpar digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau awyr agored a chwaraeon os yw'n berthnasol.

23.6 Bod digon o offer achub bywyd a chymorth hynofedd ar gael pan gynhelir chwaraeon dŵr.

23.7 Os gofelir am fabanod a phlant eraill o dan ddwy flwydd oed:

- rhaid i'r gweithgareddau, y teganau a'r cyfarpar fod yn briodol i oedran y plentyn a rhoi cyfleoedd a phrofiadau synhwyraidd amrywiol y tu mewn a'r tu allan.
- rhaid darparu rhai celfi domestig i helpu'r plant i ddysgu symud ac i barhau â phrofiadau bywyd arferol.

[12] Toys (Safety) Regulations 2011 - GOV.UK (www.gov.uk)

- bod cotiau neu gelfi priodol eraill yn cael eu darparu er mwyn i'r plant gael gorffwys neu gysgu.

## Safon 24: Diogelwch

**Canlyniad:**

*Y gofelir am y plant a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn amgylchedd diogel.*

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Hyrwyddo Diogelwch a Rheoli Risgiau**

24.1 Bod diogelwch yn cael ei hyrwyddo yn y lleoliad ac ar dripiau, ac y cymerir y camau priodol i osgoi damweiniau.

24.2 Bod cyn lleied o berygl â phosibl yn cael ei achosi i'r plant y tu mewn i'r fangre a'r tu allan. Rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau iechyd a diogelwch, a rhaid hyfforddi'r staff i ddeall y gofynion o ran iechyd a diogelwch yr amgylchedd y maent yn gweithio ynddo.

24.3 Bod asesiad risg o'r fangre yn cael ei gwblhau o leiaf unwaith y flwyddyn a'i fod yn cael ei adolygu pan fydd y fangre neu anghenion y plant yn newid. Rhaid llunio cynllun gweithredu, ynghyd ag amserlenni, er mwyn nodi'r camau i'w cymryd i leihau peryglon penodol.

24.4 Bod rheoli risg gweithgareddau a chyfleoedd chwarae unigol yn cydbwyso perygl niwed â'r manteision i'r plentyn, er enghraifft, o ran ehangu eu gwybodaeth am y byd a datblygu sgiliau a lles corfforol neu emosiynol.

24.5 Bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser, a bod gofal ychwanegol yn cael ei gymryd yn ystod gweithgareddau a all fod yn weddol beryglus.

24.6 Bod y plant yn cael eu goruchwylio a'u hamddiffyn rhag perygl er mwyn iddynt allu chwarae y tu allan yn ddiogel.

24.7 Bod system wedi'i sefydlu i reoli mynediad i'r fangre a bod cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw.

24.8 Bod y plant yn cael eu rhoi mewn harneisiau diogelwch mewn cadeiriau uchel neu isel os yw hynny'n briodol.

24.9 Bod aelod o staff yn mynd i weld babanod sy'n cysgu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn iawn. Rhaid sicrhau bod pawb sy'n darparu gofal yn ymwybodol o'r canllawiau ar fabanod sy'n cysgu.

24.10 Bod y fangre, gan gynnwys unrhyw fannau chwarae awyr agored, yn ddiogel, ac nad oes modd i blant o dan 8 oed adael heb oruchwyliaeth.

Dim ond o dan drefniadau a gytunir o flaen llaw gyda’r rhieni y caiff plant 8 oed neu’n hŷn adael. Nid yw hyn yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored.

24.11 Bod pyllau, draeniau, pyllau nofio ac unrhyw ddŵr naturiol yn ddiogel neu y tu hwnt i gyrraedd plant.

24.12 Nad oes unrhyw blanhigion gwenwynig neu beryglus y tu mewn lle mae gofal plant yn cael ei ddarparu. Dylai planhigion gwenwynig neu beryglus fod y tu hwnt i gyrraedd plant.

24.13 Bod y gwydr sydd wedi'i osod ar unrhyw ddrws yn wydr diogelwch neu ei fod wedi'i orchuddio â ffilm blastig warchod.

24.14 Bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol wedi'i drefnu.

24.15 Bod cyfarpar a sylweddau sy'n gallu bod yn beryglus yn cael eu hangori a/neu eu storio'n ddiogel y tu hwnt i afael y plant.

**Risg Tân**

24.16 Lle bo hynny’n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, fod cyfarpar a gosodiadau nwy a thrydanol a rhai sy'n llosgi olew a glo, gan gynnwys systemau gwres canolog a thanau, yn cael eu gwirio’n rheolaidd gan dechnegydd sydd wedi’i gymeradwyo. Dylai cyfarpar o’r fath gydymffurfio â gofynion diogelwch, dylent gael eu gwarchod yn briodol ac ni ddylent achosi perygl i blant. Rhaid sicrhau bod tystysgrifau priodol yn cael eu cadw a’u bod ar gael i'w harchwilio gan AGC.

24.17 Y cymerir camau digonol i leihau risgiau tân, ac y cydymffurfir ag unrhyw argymhellion gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

24.18 Bod gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n glir wedi'u sefydlu, a bod yr holl staff yn gwybod amdanynt, rhag ofn y bydd angen gwacáu unrhyw adeilad mewn argyfwng. Rhaid cynnal ymarferion tân o leiaf unwaith bob 6 mis, gan gydnabod bod plant ifanc yn elwa ar ymarferion mwy rheolaidd. Rhaid cadw cofnodion mewn llyfr log ar gyfer tanau a gaiff eu gwirio gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, a rhaid cael tystysgrifau diogelwch fel y bo angen.

24.19 Bod modd cael pawb allan o’r adeilad yn ddiogel o bob llawr.

24.20 Nad yw drysau tân yn cael eu rhwystro na’u cadw ar agor, a bod modd gweld allanfeydd tân yn glir a'u hagor o'r tu mewn.

24.21 Bod larymau mwg neu wres, sy'n cydymffurfio â safon Brydeinig 5839, ar gael fel y bo angen. Mae hyn yn cynnwys o leiaf un synhwyrydd mwg neu

wres ar bob llawr, yn y brif ardal ganolog (hy y cyntedd neu ar ben y grisiau). Bod synhwyrydd carbon monocsid yn cael ei osod hefyd ym mhob ystafell lle mae dyfais yn llosgi nwy, olew neu danwydd solet. Rhaid archwilio'r rhain mor rheolaidd ag y nodir gan y gwneuthurwr, a'u cadw mewn cyflwr da.

**Cludiant**

24.22 Bod gweithdrefn wedi'i sefydlu ar gyfer sicrhau diogelwch yn ystod unrhyw dripiau. Rhaid cadw cofnodion ynglŷn â pha gerbydau a ddefnyddir i gludo plant, gan gynnwys manylion yr yswiriant a rhestr o yrwyr dynodedig.

24.23 Bod gan y gyrwyr sy'n defnyddio eu cerbyd eu hunain drwydded yrru ddilys, trwydded ar gyfer y cerbyd, yr yswiriant priodol, ac os oes angen, dystysgrif MOT gyfredol.

24.24 Bod seddi sy'n briodol i oedran, pwysau ac uchder y plentyn yn cael eu defnyddio wrth gludo plant mewn cerbyd.

## Safon 24: Diogelwch (Gwarchodwr Plant)

24.1(GP) Eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau diogelwch tân Llywodraeth Cymru ar gyfer mangreoedd gwarchod plant sy'n rhoi arweiniad ar sut i'w diogelu eu hunain a'r plant yn eu gofal rhag tân.

## Safon 24: Diogelwch (Gofal Dydd)

24.1(GD) Bod pob darparwr mewn mangre annomestig yn cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, a'r canllawiau statudol[13] sy'n cyd-fynd â'r gorchymyn hwnnw.

## Safon 24: Diogelwch (Chwarae Mynediad Agored)

24.1(Ch) Mewn darpariaeth sy'n gweithredu mewn parciau cyhoeddus neu fannau cyhoeddus eraill, nad yw'n bosibl i'r cyhoedd niweidio'r plant ac nad ydynt yn denu sylw nad yw'r plentyn ei eisiau.

24.2(Ch) Y dilynir arferion da o ran diogelwch ac amddiffyn plant wrth i'r plant adael y ddarpariaeth.

[13] Cyhoeddir canllaw i wneud eich safle annomestig bach yn ddiogel rhag tân yn fuan yn Tân ac achub | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
Caiff canllawiau pellach ar gyfer lleoliadau annomestig mwy a'r rhai sy'n darparu gofal dros nos eu cyhoeddi'n nes ymlaen eleni.

## Safon 25: Gofal dros nos

| **Canlyniad:** |
| --- |
| *Y bodlonir anghenion plant sy’n cael gofal dros nos.* |

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

**Contract**

25.1 Na dderbynnir unrhyw blentyn i'r ddarpariaeth heb i rifau ffôn mewn argyfwng gael eu darparu. Os nad yw'r rhieni ar gael, bod rhywun arall wedi’i enwi i fod ar gael i gasglu'r plentyn os oes angen.

25.2 Bod y rhiant yn llofnodi contract yn nodi'r holl fanylion perthnasol am y plentyn a'i ofal, gan gynnwys enw'r unigolyn y gellir cysylltu ag ef mewn argyfwng a chadarnhad o gytundeb yr unigolyn hwnnw i gasglu'r plentyn yn ystod y nos os oes angen.

**Gweithio gyda rhieni**

25.3 Yr ymgynghorir â'r rhieni ynghylch yr holl drefniadau sydd wedi'u sefydlu neu a gaiff eu gwneud i'w plentyn dderbyn gofal dros nos.

25.4 Y gofynnir i'r rhieni am wybodaeth ynglŷn ag arferion cysgu'r plentyn ac unrhyw broblemau a allai godi yn ystod y nos, ee gwlychu gwely, hunllefau ac ati, gan geisio gweithredu mewn ffordd gyson a sensitif.

**Cymarebau staffio**

25.5 Y cynhelir y cymarebau oedolion:plant perthnasol dros nos (gweler Safon Ofynnol Genedlaethol 15). Mewn lleoliadau annomestig, bod o leiaf ddau aelod o staff gofal plant yn y fangre drwy'r amser yn ystod y nos, a bod un o'r rheini yn effro.

**Y fangre**

25.6 Bod y plant yn cysgu mewn man neu ystafell ar wahân, sydd wedi'i gwresogi'n ddigonol.

25.7 Bod pob plentyn sy'n aros dros nos yn cael gwely neu got addas a dillad gwely glân.

25.8 Bod toiledau a basnau ymolchi digonol ar gael i'r plant. Y perchir preifatrwydd y plant hŷn pan fyddant yn cael bath ac yn newid dillad.

**Diogelwch**

25.9 Nad oes unrhyw beryglon iechyd neu ddiogelwch yn y mannau cysgu.

25.10 Bod larwm mwg wedi'i osod yn y mannau cysgu a gaiff eu defnyddio gan blant, a bod llwybr penodol i ddianc rhag tân (fel rheol drws sy'n arwain at ardal pen grisiau neu gyntedd sy'n arwain yn uniongyrchol at ddrws allanol).

25.11 Bod systemau diogelwch priodol wedi'u sefydlu er mwyn atal rhywun rhag mynd i mewn i'r fangre heb awdurdod. Ni chaiff neb dros 16 oed aros yn y fangre dros nos oni bai bod gan yr unigolyn hwnnw dystysgrif datgeliad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Iechyd**

25.12 Bod pob man cysgu yn lân ac wedi'i addurno'n dda yn gyffredinol.

**Bwyd a diod**

25.13 Bod prydau/bwyd/diodydd addas ar gael. Y trafodir y gofynion gyda'r rhieni ymlaen llaw.

# Atodiad A – Canllawiau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchodwyr Plant

Rhaid i'r gofynion ychwanegol hyn gael eu bodloni gan warchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwy-ydd.

**Y diffiniad o Gynorthwy-ydd**

Gall cynorthwy-ydd gwarchod plant fod yn gyflogai neu'n wirfoddolwr mewn rôl â thâl neu ddi-dâl sy'n gweithio gyda phlant o dan warchodwr plant cofrestredig. Ni fyddai'n cynnwys myfyriwr sydd ar leoliad mewn safle gwarchod plant.

**Darparu gwybodaeth**

Rhaid i warchodwyr plant roi gwybod i AGC am eu bwriad i weithio gyda chynorthwy-ydd i ofalu am blant. Rhaid rhoi'r wybodaeth drwy gyfrif AGC y gwarchodwr plant a chyn i'r cynorthwy-ydd ddechrau gweithio gydag ef.

**Datganiad o Ddiben**

Mae angen rhoi gwybod i rieni am y trefniadau ar gyfer gweithio gyda chynorthwy-ydd. Rhaid i'r Datganiad o Ddiben gyfeirio at hyn, gan gynnwys:

- Cadarnhad nad yw'r cynorthwy-ydd wedi'i gofrestru gydag AGC a bod y gwarchodwr plant yn gyfrifol am sicrhau ei addasrwydd ar gyfer y rôl. Manylion am y cynorthwy-ydd, gan gynnwys cadarnhad bod y gwiriadau o'i addasrwydd, yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, wedi'u cynnal cyn i'r cynorthwy-ydd ddechrau gweithio.

- Manylion am gymwysterau a phrofiad y cynorthwyydd.

- Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau'r cynorthwyydd.

- Manylion am hyd yr amser a'r mathau o weithgareddau/tripiau pan fydd plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda chynorthwy-ydd. Os na fydd cynorthwy-ydd yn cael ei adael ar ei ben ei hun gyda phlant, dylid nodi hyn hefyd yn y Datganiad.

- Cadarnhad o niferoedd ac oedrannau'r plant y bydd cynorthwy-ydd yn gofalu amdanynt os cânt eu gadael ar eu pen eu hunain.

- Sut y bydd y cynorthwy-ydd yn cael ei oruchwylio a'i fonitro.

**Addasrwydd cynorthwywyr**

Mae'r gwarchodwr plant yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gynorthwy-ydd a gyflogir ganddo neu sy'n gwirfoddoli i weithio ochr yn ochr ag ef yn addas, yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, i ofalu am blant hyd at 12 oed, a bod ganddo'r sgiliau, y profiad a'r cymwysterau priodol i gyflawni anghenion y plant.

Rhaid i'r cynorthwy-ydd fod wedi cwblhau cwrs priodol yn llwyddiannus a gydnabyddir yn [Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru] i weithio gyda'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Rhaid i'r cynorthwy-ydd fod wedi dilyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf pediatrig a meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig berthnasol sy'n briodol ar gyfer oedran y plentyn/plant sy'n derbyn gofal. Dylai'r dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig fod yn gyfredol a dylid ei hadnewyddu bob 3 blynedd.

Rhaid i'r cynorthwy-ydd fod wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant/diogelu, a rhaid iddo allu rhoi'r polisi amddiffyn plant/diogelu ar waith ynghyd â'r gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o faterion diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys cam-drin corfforol, esgeulustod, cam-drin emosiynol a cham-drin rhywiol.

Rhaid i'r cynorthwy-ydd fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ddi-oed.

**Recriwtio**

Rhaid i'r cynorthwy-ydd ddilyn gweithdrefn fetio sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac sy'n cynnwys archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rhaid i'r gwarchodwr plant greu ffeil ar gyfer y cynorthwy-ydd fel tystiolaeth bod y gwiriadau addasrwydd gofynnol wedi'u cynnal, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd) (Atodlen 2 Rhan 1 – Gwybodaeth am bersonau eraill: staff). Rhaid cwblhau'r ffeil a'r holl wiriadau addasrwydd cyn i'r cynorthwy-ydd ddechrau gofalu am blant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru: [Canllaw ar recriwtio'n dda ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant]

**Sefydlu**

Rhaid i'r gwarchodwr plant ddarparu hyfforddiant sefydlu i'r cynorthwy-ydd er mwyn sicrhau ei fod yn gwybod sut mae'r gwasanaeth yn rhedeg, a'i fod yn deall ac yn gallu gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau. Rhaid i'r broses sefydlu hefyd gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau'r cynorthwy-ydd, ac unrhyw ddisgwyliadau eraill mewn

perthynas â'i waith. Dylid cadw cofnod o'r hyfforddiant sefydlu hwn yn ffeil staff y cynorthwy-ydd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru: Fframwaith sefydlu ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant

**Goruchwylio**

Fel y person cofrestredig, mae'r gwarchodwr plant yn atebol am waith unrhyw gynorthwy-ydd, ac yn gyfrifol am ddiogelwch, lles a datblygiad y plant yn ei ofal. Rhaid i'r gwarchodwr plant ddefnyddio'r cynorthwy-ydd mewn ffordd effeithiol a goruchwylio ei waith, gan fonitro ei berfformiad er mwyn parhau i fod yn fodlon bod y cynorthwy-ydd yn gymwys ym mhob un o'i feysydd gwaith. Rhaid i'r gwarchodwr plant gynnal gynnal sesiynau goruchwylio un-i-un gyda'r cynorthwy-ydd yn rheolaidd gan ei annog i ystyried ansawdd ei ymarfer. Dylid cadw cofnod o'r sesiynau goruchwylio un-i-un yn y ffeil staff.

Rhaid i'r gwarchodwr plant ddeall ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran cyfeirio cynorthwy-ydd i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion yng Nghymru.

Rhaid i warchodwyr plant, ac unrhyw gynorthwy-ydd a fydd efallai yn gwbl gyfrifol am blant am unrhyw gyfnod o amser, feddu ar dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig llawn gyfredol cyn dechrau gwarchod plant. Os nad yw'r cynorthwy-ydd yn cael ei roi mewn sefyllfa o gyfrifoldeb am blant, dylai fod ganddo dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau ei rôl.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru: Goruchwylio effeithiol mewn gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant

**Arfarnu**

Rhaid i'r gwarchodwr plant gynnal adolygiad rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) i ddadansoddi perfformiad y cynorthwy-ydd yn ffurfiol. Dylid cadw cofnod o'r arfarniad hwn yn ffeil staff y cynorthwy-ydd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru: Goruchwylio effeithiol mewn gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant

**Cofnodion**

Dylai cofnodion presenoldeb ddangos yn gywir y diwrnodau a'r amseroedd pan oedd y cynorthwy-ydd yn gweithio. Dylai'r cofnodion hefyd ddangos y diwrnodau a'r amseroedd pan oedd y cynorthwy-ydd yn gweithio ar ei ben ei hun ac enwau'r plant yr oedd yn gyfrifol amdanynt ar yr adegau hyn.

Rhaid i'r gwarchodwr plant gadw ffeil staff ar gyfer pob cynorthwy-ydd.

**Cymarebau staffio**

Y nifer fwyaf o blant y caiff gwarchodwr plant sy’n gweithio ar ei ben ei hun ofalu amdanynt yw:

- 10 o blant hyd at 12 oed
- O'r 10 plentyn hynny, ni all mwy na chwech fod o dan wyth oed
- O'r chwe phlentyn hynny, ni all mwy na thri fod o dan 5 oed
- O’r tri phlentyn hynny, ni chaiff mwy na dau fod o dan 18 mis oed fel arfer, er bod eithriadau'n bosibl yn achos brodyr a chwiorydd.

Mae'r un cymarebau oedolyn:plant yn berthnasol i'r cynorthwy-ydd ag i’r gwarchodwr plant. Fodd bynnag, gall y lle chwarae sydd ar gael effeithio ar y niferoedd hyn.

Os nad yw cynorthwy-ydd yn gweithio, yna rhaid i'r gwarchodwr plant fynd yn ôl i weithio ar sail y cymarebau ar gyfer gweithio ar ei ben ei hun.

**Gweithio mewn partneriaeth â rhieni**

Dylai'r contract rhwng y gwarchodwr plant a'r rhieni gynnwys manylion ynghylch pryd y bydd eu plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda chynorthwy-ydd, a dylai'r rhieni lofnodi eu cytundeb i hyn.

Os bydd cynorthwy-ydd yn dechrau gweithio gyda’r gwarchodwr plant ar ôl i'r contract gael ei sefydlu, yna rhaid diwygio'r contract i gynnwys manylion ynghylch pryd y bydd eu plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda chynorthwy-ydd, a rhaid i'r rhieni lofnodi i gadarnhau eu bod yn cytuno.

**Polisïau a Gweithdrefnau**

Rhaid diwygio polisïau a gweithdrefnau, lle bo'n berthnasol, i adlewyrchu gweithio gyda chynorthwy-ydd a phryd y bydd plant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda'r cynorthwy-ydd. Dylai rhieni lofnodi eu bod yn cytuno ag unrhyw bolisïau a gweithdrefnau sy'n cyfeirio at rôl cynorthwy-ydd gwarchod plant.

**Mangreoedd**

Ni ddylai gweithio gyda chynorthwy-ydd effeithio ar y lle a'r cyfleusterau sydd ar gael i blant yn y fangre.

**Diogelwch**

Rhaid i'r cynorthwy-ydd fod yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer sicrhau bod pawb yn gadael yr adeilad mewn argyfwng, a beth yw ei rôl ef.

Os yw'r cynorthwy-ydd yn defnyddio ei gerbyd ei hun ar gyfer plant sy'n cael eu gwarchod, rhaid bod ganddo drwyddedau gyrru a cherbyd dilys, yswiriant priodol a thystysgrif MOT gyfredol lle bo angen.

**Yswiriant**

Rhaid i'r gwarchodwr plant feddu ar Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr os yw'n cyflogi cynorthwy-ydd/cynorthwywyr, a darparu unrhyw fanylion gofynnol i'w yswiriwr ynghylch rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys yr amser y caiff unrhyw blentyn/plant eu gadael ar eu pen eu hunain gyda'r cynorthwy-ydd, i sicrhau bod yswiriant dilys wedi'i drefnu.

**Tystysgrif cofrestru**

Gall gweithio gyda chynorthwy-ydd effeithio ar amodau cofrestru gwarchodwr plant:

- Os na fydd uchafswm nifer y plant o dan 12 oed yn fwy na 10 wrth weithio gyda chynorthwy-ydd, yna ni fydd AGC yn ychwanegu amod i'r dystysgrif ynghylch gweithio gyda chynorthwy-ydd.

- Os bydd uchafswm nifer y plant yn fwy na 10 wrth weithio gyda chynorthwy-ydd, yna bydd AGC yn ychwanegu amod i'r dystysgrif gofrestru i adlewyrchu hyn. Rhaid i warchodwyr plant wneud cais penodol drwy eu cyfrif ar-lein gydag AGC os ydynt yn bwriadu cynyddu uchafswm nifer y plant a fydd yn derbyn gofal i fwy na 10 wrth weithio gyda chynorthwy-ydd.

**Dolenni**

PACEY Cymru (Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar) - Hyfforddiant gofal plant yn y cartref yng Nghymru

Cysylltwch â PACEY Cymru drwy e-bost: mailto:paceycymru@pacey.org.uk neu dros y ffôn 02920351407 am ragor o wybodaeth a chymorth ar weithio gyda chynorthwy-ydd gwarchod plant yng Nghymru.

**Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru**

Fframwaith cymwysterau

Canllaw ar recriwtio'n dda ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant

Fframwaith sefydlu ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant

[Goruchwylio effeithiol mewn gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant]

**Cyfrifoldebau cyfreithiol yn ymwneud â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - canllawiau ychwanegol**

[Gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion yng Nghymru]

# Atodiad B – Canllawiau Cymorth Cyntaf Atodol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig

Mae'r canllawiau hyn yn rhan bwysig o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed. Maent yn darparu canllawiau a chyngor atodol i alluogi unigolion cofrestredig a'u staff i fodloni’r gofynion cymorth cyntaf a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer Cymorth Cyntaf i Blant mewn lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig. Mae darparwyr gofal plant yn gyfrifol am ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant cymwys i gyflwyno eu hyfforddiant Cymorth Cyntaf i Blant. Yn achos Cymorth Cyntaf i Blant, nid ydym yn nodi cwrs neu gorff dyfarnu penodol ichi eu defnyddio, gan y bydd hyn yn amrywio ledled Cymru. Fodd bynnag, darperir cyngor i'ch helpu i ddewis cwrs, a bydd angen i chi sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn, anghenion eich lleoliad a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae hyfforddiant ar gael gan ystod eang o ddarparwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig cymwysterau a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru neu'r Cymdeithasau Cymorth Gwirfoddol (Ambiwlans Sant Ioan Cymru, y Groes Goch Brydeinig a Chymorth Cyntaf Sant Andreas sy’n cael eu cydnabod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel rhai sy’n gosod safon i anelu ati o ran ymarfer cymorth cyntaf cymeradwy ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwaith). Gall gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd eich awdurdod lleol ddarparu rhagor o wybodaeth ar gyrsiau perthnasol yn eich ardal.

Gwyddom fod llawer o leoliadau gofal plant a chwarae yn awyddus i sicrhau bod cynifer o’u staff â phosibl wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf. Bydd annog mwy o staff i gwblhau'r cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig llawn yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i rieni/gofalwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn helpu i sicrhau bod staff â chymwysterau addas ar gael bob amser i gyflenwi pan fydd staff yn absennol yn ddirybudd. Bydd cynyddu nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig hefyd yn codi hyder ynghylch diogelwch, a gallai leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau yn ymwneud â’r plant.

Rydym hefyd yn annog lleoliadau i ystyried nifer y plant a’r staff a chynllun y fangre er mwyn sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf pediatrig yn gallu ymateb i argyfyngau'n gyflym.

Dylai darparwyr arddangos tystysgrifau Cymorth Cyntaf Pediatrig Llawn/Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng y staff mewn lle amlwg, neu restr o staff sydd â thystysgrifau cyfredol mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig/Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng (neu sicrhau eu bod ar gael i rieni).

Dylai darparwyr ystyried a oes angen i swyddogion cymorth cyntaf pediatrig ymgymryd â hyfforddiant gloywi blynyddol, yn ystod unrhyw gyfnod ardystio o dair blynedd i helpu i gynnal eu sgiliau sylfaenol a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i weithdrefnau Cymorth Cyntaf Pediatrig.

**Egwyddorion cyrsiau Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng a Llawn**[14]:

1. Mae'r hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr sy'n gofalu am blant yn absenoldeb eu rhieni/gofalwyr ac mae'n briodol i oedran y plant sy'n derbyn gofal.

2. Rhaid darparu digon o offer dadebru ac offer arall, gan gynnwys modelau o fabanod a phlant, fel bod yr holl hyfforddeion yn gallu ymarfer a dangos technegau.

3. Yn dilyn hyfforddiant, mae asesiad o gymhwysedd yn arwain at ddyfarnu tystysgrif.

4. Rhaid adnewyddu'r dystysgrif bob tair blynedd.

5. Dylid dilyn y cwrs **Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng** wyneb yn wyneb[15] a dylai bara am o leiaf 6 awr (heb gynnwys seibiannau) a chwmpasu'r meysydd canlynol:

- Gallu asesu argyfwng a blaenoriaethu'r camau i'w cymryd
- Helpu babi neu blentyn nad yw'n ymateb ond sy'n anadlu'n arferol
- Helpu babi neu blentyn nad yw'n ymateb ac nad yw'n anadlu'n arferol
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef trawiad
- Helpu babi neu blentyn sy'n tagu
- Helpu babi neu blentyn sy'n gwaedu
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o sioc yn sgil colli llawer o waed (sioc hypofolemig)

[14] Lluniwyd yr egwyddorion uchod i adlewyrchu'r rhannau perthnasol o gynnwys Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac fe'u seiliwyd ar y canllawiau yr arferai'r Awdurdod eu rhoi i ddarparwyr hyfforddiant pan oeddent yn rheoleiddio darparwyr hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yn uniongyrchol.
[15] Mae wyneb yn wyneb yn golygu bod yr hyfforddwyr yn bresennol yn gorfforol gyda'u hyfforddeion. Nid yw hyn yn cynnwys sesiynau ar-lein.

Dylai'r cwrs **Cymorth Cyntaf Pediatrig llawn** bara o leiaf 12 awr (heb gynnwys seibiannau) a chynnwys yr elfennau a restrir isod yn ogystal â'r meysydd a nodir ym mharagraff 5 (dylid cyflwyno'r elfennau o'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng a amlinellir ym mharagraff 5 wyneb yn wyneb).

- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o sioc anaffylactig
- Helpu babi neu blentyn sydd wedi cael sioc drydanol
- Helpu babi neu blentyn sydd â llosgiadau neu sgaldiadau
- Helpu babi neu blentyn yr amheuir ei fod wedi torri asgwrn
- Helpu babi neu blentyn sydd ag anafiadau i'w ben, ei wddf neu ei gefn
- Helpu babi neu blentyn yr amheuir ei fod wedi'i wenwyno
- Helpu babi neu blentyn sydd â rhywbeth estron yn ei lygad, ei glust neu ei drwyn
- Helpu babi neu blentyn sydd ag anaf i'w lygad
- Helpu babi neu blentyn sydd wedi'i gnoi neu ei bigo
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef o effeithiau gwres neu oerfel eithafol
- Helpu babi neu blentyn sy'n dioddef: argyfwng diabetig; pwl asthma; adwaith alergaidd; llid yr ymennydd; a/neu ffitiau twymyn
- Deall rôl a chyfrifoldebau'r swyddog cymorth cyntaf pediatrig (gan gynnwys yr hyn a ddylai fod mewn blwch cymorth cyntaf a'r angen i gofnodi damweiniau a digwyddiadau).

# Atodiad C – Canllawiau Diogelu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Canllawiau hyn yn rhoi manylion am hyfforddiant diogelu sy'n briodol i wahanol rolau yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

## Grŵp A (Lefel 1) – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Mae cyrsiau Grŵp A (Lefel 1) – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiogelu plant. Maent yn disgrifio'r mathau cyffredin o gam-drin, sut i'w hadnabod, a sut i ymateb i bryderon. Maent hefyd yn esbonio sut i roi gwybod am bryderon yn y ffordd iawn.

Dylai'r hyfforddiant gorfodol hwn fod yn rhan o broses sefydlu pob aelod o staff a gyflogir.

**Y rolau y mae'r hyfforddiant yn ofynnol ar eu cyfer**

Cyflogeion a fydd o bosibl, ond nid o reidrwydd, yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, ond a fydd o bosibl yn gweithio mewn adeilad lle mae yna ddarpariaeth gofal plant; neu aelodau o Fwrdd / Pwyllgor sy'n cefnogi darpariaeth gofal plant.

**Dyma rai enghreifftiau (nid yw hon yn rhestr gyflawn):**

- Gofalwyr/ Glanhawyr/ Cogyddion
- Aelodau o'r Pwyllgor nad ydynt yn gweithio
- Ysgrifenyddion/ Gweinyddwyr/ Derbynyddion
- Gwirfoddolwyr (yn dibynnu ar lefel yr oruchwyliaeth. Os cânt eu gadael ar eu pen eu hunain gyda phlant, byddai hyfforddiant Grŵp B yn fwy priodol.)
- Gweithwyr chwarae mynediad agored tymhorol[16]

**Math o gwrs ac ystyriaethau:**

- Cwrs ar-lein
- Hyd: Hyd at 2-3 awr
- Argymhellir: adnewyddu bob 3 blynedd

## Grŵp B (Lefel 2) – Cwrs Diogelu Canolradd

Mae cyrsiau Diogelu Plant lefel ganolradd yn helpu i gynyddu'r wybodaeth am ddiogelu sydd gan unigolion eisoes, ac yn addysgu mwy am yr hyn y mae'r broses

[16] Argymhellir modiwl E-Ddysgu Diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru (1awr).

ddiogelu yn ei olygu. Mae'r cwrs yn dangos sut i adnabod camdriniaeth a rhoi gwybod am bryderon, ac mae’n gyfle i ddysgu mwy am y strwythur diogelu, adnabod risgiau a beth sy'n digwydd ar ôl atgyfeirio achos i ofal cymdeithasol.

**Y rolau y mae’r hyfforddiant yn ofynnol ar eu cyfer**

Gweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

**Dyma rai enghreifftiau (nid yw hon yn rhestr gyflawn):**

- Cynorthwywyr gwarchodwyr plant
- Cynorthwywyr meithrin dan hyfforddiant
- Cynorthwywyr meithrin
- Arweinwyr ystafelloedd meithrin
- Rheolwyr cynorthwyol
- Gweithwyr chwarae
- Gyrwyr
- Gwirfoddolwyr (yn dibynnu ar lefel yr oruchwyliaeth)

**Math o gwrs ac ystyriaethau:**

- Cwrs wyneb yn wyneb, lle bo hynny'n bosibl
- Hyd: 4-6 awr/1 diwrnod/2 sesiwn gyda'r nos
- Argymhellir: adnewyddu yn unol â’r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu

## Grŵp C (Lefel 3) – Cwrs Diogelu Uwch

Mae cyrsiau Diogelu lefel uwch yn addysgu mwy am yr hyn y mae'r rôl yn ei olygu, ac yn help i ddeall y broses ddiogelu yn fanylach. Mae'r cwrs yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ysgrifenedig ac ymarferion rhyngweithiol i helpu i adolygu a datblygu'r gweithdrefnau diogelu yn y lleoliad a sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau tuag at ddiogelu plant. Yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff a sut i ddelio â'r rhain, deall deddfwriaeth a chanllawiau allweddol sy'n sail i bolisi lleoliadau ynghylch diogelwch a lles plant, rolau i'w cyflawni yn y broses amddiffyn plant ar lefel amlasiantaethol gan gynnwys cynadleddau achos a darparu adroddiadau ysgrifenedig.

**Y rolau y mae'r hyfforddiant yn ofynnol ar eu cyfer**

Y rhai sydd mewn cysylltiad â phlant ac sy'n **gyfrifol yn y pen draw am gwestiwn diogelu o fewn y ddarpariaeth**.

**Dyma rai enghreifftiau (nid yw hon yn rhestr gyflawn):**

Ar y safle

- Arweinydd y lleoliad
- Rheolwyr
- Y person â chyfrifoldeb
- Gwarchodwyr plant

Oddi ar y safle o bosibl

- Y person diogelu dynodedig[17]
- Unigolion cyfrifol
- Y person cofrestredig

***Math o gwrs ac ystyriaethau:***

Cwrs wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl

Hyd: 2 ddiwrnod

Argymhellir: adnewyddu yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu

- Yr ymarferwyr hyn[18] yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau staff, teuluoedd a phobl eraill sydd â mynediad at leoliadau, ac felly mae'n hanfodol bod yr wybodaeth am weithdrefnau amddiffyn plant yn fanwl ac yn gyfredol.

[17] Defnyddir y term hwn drwy gydol y Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu. 'Y person sydd wedi'i nodi o fewn y sefydliad i fod ar gael i drafod pryderon diogelu. Dylid ymgynghori â nhw ynghylch p'un a ddylid codi pryder yn ymwneud â diogelu gyda'r awdurdod lleol, a bydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith i sicrhau bod yr unigolyn sydd mewn perygl yn ddiogel rhag cael ei gam-drin. Dylai pob ymarferydd wybod â phwy yn eu hasiantaeth i gysylltu am gyngor, ac ni ddylent oedi cyn trafod eu pryderon, ni waeth pa mor ddibwys y maent yn ymddangos'.

[18] Defnyddir y term 'ymarferwyr' drwy gydol y Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu. 'Defnyddiwyd hwn fel term cyffredinol i ddisgrifio unrhyw un sydd mewn cyflogaeth â thâl yn ogystal â gwirfoddolwyr di-dâl'.

## Rhagor o wybodaeth

### Darparwyr – mae rhagor o wybodaeth am hyfforddiant Diogelu ar gael o’r ffynonellau canlynol

- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Gofal Cymdeithasol Cymru - Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol ym maes diogelu
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau'r trydydd sector, Cwlwm a Chwarae Cymru

Sicrhewch fod y cwrs diogelu yr ydych yn cofrestru ar ei gyfer yn adlewyrchu arferion a gweithdrefnau Cymru, nid Lloegr – h.y. eu bod yn adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu cwrs Grŵp A Diogelu

## Atodiad D – Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a’r Rheoliadau cysylltiedig

Mae'r tabl hwn yn nodi'r rheoliadau yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y’u diwygiwyd) y mae’r safonau hyn yn berthnasol iddynt.

| | |
|---|---|
| **Safon 2: Y Contract** | Rheoliad 15 – Datganiad o ddiben<br>Rheoliad 20 – Diogelu a hyrwyddo lles<br>Rheoliad 21 - Y bwyd a ddarperir i'r plant<br>Rheoliad 22 – Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant<br>Rheoliad 23 – Rheoli ymddygiad, atal a disgyblu<br>Rheoliad 24 - Anghenion iechyd plant<br>Rheoliad 26 - Defnyddio a storio meddyginiaethau<br>Rheoliad 29 – Cyflogi staff<br>Rheoliad 30 - Cadw cofnodion<br>Rheoliad 31 – Darparu gwybodaeth<br>Rheoliad 32 – Cwynion |
| **Safon 5: Cofnodion** | Rheoliad 16 – Adolygu ansawdd y gofal<br>Rheoliad 20 – Diogelu a hyrwyddo lles<br>Rheoliad 27 – Staffio |
| **Safon 8: Maeth a lles** | Rheoliad 20 – Diogelu a hyrwyddo lles<br>Rheoliad 21 - Y bwyd a ddarperir i'r plant<br>Rheoliad 23 – Rheoli ymddygiad, atal a disgyblu<br>Rheoliad 24 - Anghenion iechyd plant<br>Rheoliad 25 - Peryglon a diogelwch<br>Rheoliad 26 - Defnyddio a storio meddyginiaethau<br>Rheoliad 27 - Staffio<br>Rheoliad 29 - Cyflogi staff<br>Rheoliad 30 - Cadw cofnodion<br>Rheoliad 31 – Darparu gwybodaeth |
| **Safon 13(GD): Person addas** | Rheoliad 6 – Y person cofrestredig: ei addasrwydd<br>Rheoliad 9 – Y person cofrestredig: gofynion cyffredinol<br>Rheoliad 15 – Datganiad o ddiben<br>Rheoliad 16 – Adolygu ansawdd y gofal<br>Rheoliad 17 – Asesu'r gwasanaeth<br>Rheoliad 18 – Hysbysiad i gydymffurfio<br>Rheoliad 20 – Diogelu a hyrwyddo lles |

| | |
|---|---|
| | Rheoliad 27 – Staffio<br>Rheoliad 28 – Addasrwydd gweithwyr<br>Rheoliad 32 – Cwynion<br>Rheoliad 33 – Ymdrin â chwynion |
| **Safon 19: Cwynion** | Rheoliad 10 – Hysbysu am dramgwyddau<br>Rheoliad 11 – Marwolaeth person cofrestredig<br>Rheoliad 15 – Datganiad o ddiben<br>Rheoliad 22 – Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant<br>Rheoliad 23 – Rheoli ymddygiad, atal a disgyblu<br>Rheoliad 31 – Darparu gwybodaeth<br>Rheoliad 32 – Cwynion<br>Rheoliad 33 – Ymdrin â chwynion<br>Rheoliad 34 – Datrys yn lleol<br>Rheoliad 35 – Ystyriaeth ffurfiol<br>Rheoliad 36 – Cwynion sy'n destun ystyriaeth gydamserol |
| **Safon 21: Hysbysu am ddigwyddiadau pwysig** | Rheoliad 20 – Diogelu a hyrwyddo lles<br>Rheoliad 25 – Peryglon a diogelwch<br>Rheoliad 37 – Addasrwydd y fangre |

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | Y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau bod rheoliadau gofal plant a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu bodloni – mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru |
| Mathau o leoliadau gofal plant a chwarae, gan gynnwys gwarchod plant; gofal dydd llawn; gofal sesiynol; creches; clybiau y tu allan i oriau ysgol; chwarae mynediad agored | Gweler tudalennau 6 o'r ddogfen hon i gael y manylion llawn. |
| Lleoliadau gofal plant (cofrestredig) | Unrhyw leoliad sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal i blant 0-12 oed |
| Gwarchod plant | Gofal a ddarperir gan un neu fwy o bobl i blant o adeg eu geni hyd at 12 oed mewn safle domestig am gydnabyddiaeth ariannol |
| Cwricwlwm i Gymru | Cwricwlwm statudol i blant a phobl ifanc tair i un ar bymtheg oed, yn nodi beth sy'n bwysig o ran darparu addysg eang a chytbwys yng Nghymru |
| Cwlwm[19] | Consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae, sy'n cefnogi lleoliadau gofal plant a chwarae ag arweiniad ac aelodaeth, gan hyrwyddo lleoliadau cynaliadwy o ansawdd |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Mae gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffordd i gyflogwyr wirio eich cofnod troseddol, er mwyn helpu i benderfynu p'un a ydych yn addas i weithio iddynt. Mae hyn yn cynnwys penderfynu p'un a ydych yn addas i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. |
| Darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar | Mae hyn yn cyfeirio at y ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a ddarperir gan y lleoliad gofal plant neu chwarae neu'r addysg feithrin a ddarperir mewn ysgol. Dyma'r ddarpariaeth i fabanod a phlant bach 0-5 oed. |
| Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, | Mae'r Fframwaith Ansawdd yn nodi ymarfer o ansawdd uchel ac yn disgrifio'r egwyddorion cyffredin y dylai pob lleoliad/ysgol ac ymarferydd sy'n cynnig darpariaeth Chwarae, |

[19] Pum prif sefydliad gofal plant Cymru yw CWLWM – Mudiad Meithrin, sy'n arbenigo yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg; Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru), sy'n hyrwyddo arferion gorau ac yn cefnogi gwarchodwyr plant; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant penodol ar redeg meithrinfa yng Nghymru; Blynyddoedd Cynnar Cymru, sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gofal, addysg a dysgu cyn-ysgol dwyieithog drwy chwarae ledled Cymru; Clybiau Plant Cymru, sy'n ceisio helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol sydd o safon, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

| | |
|---|---|
| Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar | Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar eu dilyn. Mae hefyd yn cynnwys llwybrau datblygu i blant 0-3 oed a phecyn cymorth ymarfer myfyriol. |
| Y Blynyddoedd Cynnar | Yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, y cyfnod rhwng 0 a 7 oed ym mywyd plentyn |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | Mae Deddf Cydraddoldeb **2010** yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn eu herbyn yn y gweithle ac mewn cymdeithas yn ehangach. |
| Estyn | Yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.<br>Caiff lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir sy'n darparu addysg feithrin i blant 3-4 oed eu harolygu gan Estyn ac AGC drwy raglen arolygu ar y cyd. |
| Wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru (Eithriadau) | Lleoliadau sydd yn yr amgylchiadau a nodir yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, ac nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Iechyd Amgylcheddol | Sefydliad sy'n diogelu iechyd y cyhoedd ac yn amddiffyn buddiannau cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd |
| Lleoedd gofal plant am ddim | Gofal plant sydd ar gael drwy raglenni a gyllidir megis Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant a/neu raglenni neu fentrau eraill Llywodraeth Cymru |
| Lleoedd addysg feithrin a ariennir | Lleoedd addysg feithrin a ariennir gan awdurdodau lleol i blant 3 a 4 oed, am ran o'r diwrnod ysgol |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Y rheoleiddiwr cenedlaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed | Safonau a ddefnyddir i gefnogi lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd i fodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer gofal plant hyd at ddeuddeg oed, ac a gyhoeddwyd o dan reoliad 14 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd). |
| Chwarae | Ymddygiad, gweithgaredd neu broses yw chwarae a ysgogir, a reolir ac a strwythurir gan blant, nad yw'n orfodol, sydd i'w fwynhau heb gymhelliant pellach, nad oes nod penodol iddo, ac sy'n cynnwys, fel elfennau allweddol, hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd, heb fod angen cyflawni rhywbeth |
| Chwarae Cymru | Yr elusen genedlaethol ar gyfer chwarae plant, sy'n darparu cyngor a chanllawiau i gefnogi pawb sydd â buddiant mewn darparu ar gyfer chwarae plant, neu sydd â chyfrifoldeb yn y maes |
| Ymarferwyr | Mae'r term cyffredinol hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant ar draws y blynyddoedd cynnar, a gall gynnwys gweithwyr gofal plant, athrawon a chynorthwywyr dosbarth. |
| Gofal plant o ansawdd | Mae elfennau gofal plant o ansawdd yn cynnwys ansawdd y rhyngweithio rhwng oedolyn a phlentyn; gwybodaeth a dealltwriaeth staff o sut mae babanod a phlant ifanc yn dysgu; |

| | |
|---|---|
| | cymarebau a maint grwpiau sy’n caniatáu ar gyfer rhyngweithio priodol â phlant; a chefnogi amgylchedd dysgu plant yn y cartref. |
| Lleoliadau gofal plant cofrestredig a ariennir nas cynhelir | Lleoliadau gofal plant nad ydynt yn perthyn i’r awdurdod lleol a gymeradwyir ac a ariennir gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin |
| Person cofrestredig | Y person a gofrestrir gydag AGC i weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd |
| Gofal plant a reoleiddir | Mae darpariaeth gofal plant a reoleiddir yn cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, sy’n ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Cofrestredig, a chaiff ei chofrestru a’i harolygu gan AGC. |
| Rheoliadau | Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae “rheoliadau” yn cyfeirio at yr amrywiol reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ynghylch gwarchod plant a darparu gofal dydd, sy’n **cynnwys** Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Gofal Cymdeithasol Cymru yw’r corff rheoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu gweithlu sector gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn canolbwyntio ar gymryd camau i feithrin hyder, ceisio gwelliant a helpu i ddatblygu gweithlu gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gofal Cymdeithasol Cymru sy’n cynnal y fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal plant sy’n nodi’r union gymwysterau a gydnabyddir ar gyfer y rhai sy’n gweithio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. |
| Datganiad o ddiben | Datganiad y mae’n ofynnol yn gyfreithiol i bob darparwr gofal plant cofrestredig ei lunio. Rhaid i’r datganiad gynnwys yr holl wybodaeth o dan Reoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 am nodau ac amcanion y gwasanaeth a ddarperir i blant o dan ofal y person cofrestredig, ynghyd â materion perthnasol eraill. |
| Y Mesur | Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 |
| Cymdeithas anghorfforedig | Cymdeithas nad yw’n endid cyfreithiol |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn | **Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol ar gyfer plant yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn** |
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Y rolau a’r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion a allai fod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu sydd mewn perygl o hynny. Mewn perthynas â phlant, mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw fath arall o niwed. |
| Darpariaeth gofleidiol | Darpariaeth gofal plant sy’n cefnogi rhieni lle caiff plant leoedd addysg a ariennir i ymestyn i ddiwrnod ysgol llawn |